



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Cod Ymarfer ar gyfer Lles Ieir Dodwy a Chywennod

Cynnwys

Rhagair	1
Cyflwyniad	5
Diffiniadau	7
Adran 1: Argymhellion ar gyfer pob system hwsmonaeth	8
Crefft ffermio da byw a staffio	8
Cynllun iechyd a lles	9
Bioddiogelwch a rheoli clefydau	9
Cynllunio wrth gefn ar gyfer clefydau ac argyfyngau eraill	11
Archwilio ac ymateb i iechyd a lles gwael	12
Asesiadau canlyniadau lles	14
Materion iechyd a lles penodol	14
Iechyd ysgerbydol	16
Gwiddon goch	16
Offer awtomatig neu fecanyddol	17
Awyru a thymheredd	18
Sarn (gwasarn, llaesodr – litter)	19
Sŵn	19
Bwydo a dyfrhau	20
Anffurfio	22
Tocio pigau	23
Gweithdrefnau bridio	24
Defnydd cyfrifol o feddyginiaethau a chadw cofnodion	25
Dal a chario	26
Llety: Gofynion cyffredinol	27
Dwysedd stocio a rhyddid i symud	28
Cyfoethogi'r amgylchedd	29
Systemau di-gawell: Gofynion lletya ychwanegol	30
Systemau maes: Gofynion lletya ychwanegol	31
Systemau cewyll gwell: Gofynion lletya ychwanegol	32

Adran 2: Argymhellion sy'n berthnasol i fagu cywion diwrnod oed a chywennod	33
Y Cyfnod Cynnar (0-6 wythnos)	33
Amgylchedd magu cywennod	33
Trosglwyddo o amgylchedd magu i amgylchedd dodwy	33
Atodiad 1: Deddfwriaeth sy'n effeithio ar ieir dodwy a chywennod	34
Atodiad 2: Triniaethau a ganiateir	36
Ffynonellau eraill o wybodaeth	37

Rhagair

Nid yw'r rhagair hwn yn rhan o'r Cod; ei ddiben yw esbonio pwrpas y Cod a nodi'r ystyriaethau eang sy'n sail iddo.

Mae'r Cod hwn yn berthnasol i Gymru yn unig. Mae'n disodli'r Cod Argymhellion ar gyfer Lles Da Byw: Ieir Dodwy a gyhoeddwyd yn 2002.

Nid yw'r testun cyfreithiol mewn blychau yn y ddogfen hon yn rhan o'r Cod hwn; ei ddiben yw tynnu'ch sylw at y ddeddfwriaeth berthnasol. Y gyfraith fel y mae ar y dyddiad y cyhoeddir y Cod hwn yw'r testun yn y blychau hyn (trowch i'r dudalen olaf i weld y dyddiad cyhoeddi). Dylech gofio y gall unrhyw ofynion cyfreithiol a ddyfynnir fan hyn newid. Dylech gadarnhau eu bod yn ddatganiadau cywir o'r gyfraith fel y mae ar hyn o bryd. Gweler rhestr o ddeddfwriaeth berthnasol arall yn Atodiad 1.

Cyhoeddir y Cod hwn o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006. Mae'r Ddeddf yn rhoi cyfrifoldeb ar berchnogion a cheidwaid am sicrhau bod anghenion lles eu hanifeiliaid yn cael eu diwallu, bod ganddynt amgylchedd addas, eu bod yn cael diet addas a'u hamddiffyn rhag poen, anaf, dioddefaint a chlefyd.

Mae Adran 14 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 yn nodi:

- (1) Gallai'r awdurdod cenedlaethol priodol gyhoeddi ac, o bryd i'w gilydd, ddiwygio codau ymarfer at ddiben darparu canllaw ymarferol o ran unrhyw ddarpariaeth a wneir gan neu o dan y Ddeddf hon.
- (2) Bydd yr awdurdod sy'n gyfrifol am gyhoeddi cod ymarfer o dan is-adran (1) yn cyhoeddi'r cod, ac unrhyw fersiwn ddiwygiedig ohono, yn y modd y mae'n ei ystyried yn briodol.
- (3) Ni fydd methiant person i gydymffurfio â darpariaeth cod ymarfer a gyhoeddir o dan yr adran hon ynddo'i hun yn ei wneud yn agored i achos cyfreithiol o unrhyw fath.

- (4) Mewn unrhyw achosion yn erbyn person oherwydd trosedd o dan y Ddeddf hon neu drosedd o dan reoliadau o dan adran 12 neu 13:
 - (a) gellid ystyried bod methu â chydymffurfio â darpariaeth berthnasol mewn cod ymarfer a gyhoeddir o dan yr adran hon yn fodd o brofi atebolrwydd, a
 - (b) gellid ystyried bod cydymffurfio â darpariaeth berthnasol mewn cod ymarfer o'r fath yn fodd o brofi atebolrwydd negyddol.

Y brif ddeddfwriaeth y cyfeirir ati yn y Cod hwn yw Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'u diwygiwyd) (cyfeirir atynt o hyn ymlaen yn y cod hwn fel "WOFAR 2007") a Rheoliadau Anffurfio (Triniaeth a Ganiateir) (Cymru) 2007, sy'n rhoi ar waith Gyfarwyddeb 98/58/EC y Cyngor sy'n ymwneud ag amddiffyn anifeiliaid a gedwir at ddibenion ffermio a Chyfarwyddeb 99/74/EC y Cyngor sy'n nodi rheolau gofynnol ar gyfer amddiffyn ieir dodwy.

Mae Adran 3 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 yn nodi:

- (1) Yn y Ddeddf hon, mae unrhyw gyfeiriad at berson sy'n gyfrifol am anifail yn cyfeirio at berson sy'n gyfrifol am anifail p'un a yw'r cyfrifoldeb hwnnw yn un dros dro neu'n un parhaol.
- (2) Yn y Ddeddf hon, mae unrhyw gyfeiriad at fod yn gyfrifol am anifail yn cynnwys bod â rheolaeth arno.
- (3) At ddibenion y Ddeddf hon, bydd person sy'n berchen ar anifail yn cael ei ystyried yn berson sy'n gyfrifol amdano.
- (4) At ddibenion y Ddeddf hon, ystyrir y bydd person sydd â gofal dros berson o dan 16 oed sy'n gofalu am anifail yn gyfrifol am yr anifail hwnnw yn y pen draw.

Mae Rheoliad 6 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'u diwygiwyd) yn nodi:

- (1) Rhaid i berson sy'n gyfrifol am anifail a ffermir:
 - (a) beidio â gofalu am yr anifail onid yw'n gyfarwydd ag unrhyw god ymarfer perthnasol a bod y cod ar gael iddo pan fydd yn gofalu am yr anifail; a
 - (b) chymryd pob cam rhesymol i sicrhau nad yw person a gyflogir ganddo, neu a gymerir i weithio iddo, yn gofalu am yr anifail oni bai bod y person arall hwnnw:
 - (i) yn gyfarwydd ag unrhyw god ymarfer perthnasol;
 - (ii) bod y cod ar gael iddo pan fydd yn gofalu am yr anifail; a
 - (iii) ei fod wedi cael hyfforddiant ac arweiniad ar y cod hwnnw.
- (2) Yn yr adran hon, ystyr "cod ymarfer perthnasol" yw cod ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 14 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 neu god lles statudol a gyhoeddwyd o dan adran 3 o Ddeddf Amaethyddiaeth (Darpariaethau Amrywiol) 1968 sy'n ymwneud â'r rhywogaeth benodol o anifail a ffermir y mae person yn gofalu amdano.

Bwriad y Cod hwn yw annog pawb sy'n gofalu am ieir dodwy a chywennod i gadw at safonau crefft ffermio da byw uchel er mwyn diogelu lles adar. Heb lefel dda o grefft ffermio da byw, ni fydd byth modd diogelu lles anifeiliaid yn ddigonol. Bydd dilyn yr argymhellion hyn yn helpu'r rheini sy'n cadw ieir i gynnal y safonau sydd eu hangen i gydymffurfio â deddfwriaeth.

Dylai'r rheini sy'n gofalu am yr ieir dodwy a chywennod ddangos:

- Trefniadau cynllunio a rheoli gofalggar a chyfrifol;
- Crefft ffermio da byw fedrus, wybodus a chydybodol;
- Cynllun amgylchedd priodol;
- Trefniadau trafod a chludo ystyriol; a
- Trefniadau difa heb greulondeb.

Ystyrir lles ieir dodwy a chywennod o fewn fframwaith a ddatblygwyd gan Gyngor Lles Anifeiliaid Fferm, a gaiff ei alw'n 'Bum Rhyddid'. Y rhain yw'r egwyddorion sy'n llywio'r asesiad o les o fewn unrhyw system ynghyd â'r camau sy'n angenrheidiol i ddiogelu lles o fewn cyfyngiadau diwydiant da byw effeithlon. Dylid ystyried y Pum Rhyddid ar y cyd â thri hanfod y Cyngor Lles Anifeiliaid Fferm ar gyfer crefft ffermio da byw.

Dyma'r Pum Rhyddid:

1. **Rhyddid rhag Newyn a Syched** drwy allu mynd yn hwylus at ddŵr ffres a chael deiet i gynnal iechyd ac egni;
2. **Rhyddid rhag Anghysur** drwy ddarparu amgylchedd priodol gan gynnwys cysgod a man gorffwys cysurus;
3. **Rhyddid rhag Poen, Anaf neu Glefyd** drwy eu hatal neu drwy roi diagnosis ohonynt a'u trin yn gyflym;
4. **Rhyddid i Ymddwyn yn Naturiol** drwy ddarparu digon o le, cyfleusterau priodol a chwmni anifeiliaid o'r un fath;
5. **Rhyddid Rhag Ofn a Gofid** drwy sicrhau amodau a thriniaeth sy'n osgoi dioddefaint meddyliol.

Tair Efen Hanfodol Crefft Ffermio Da Byw yw:

1. **Gwybodaeth am Hwsmonaeth Anifeiliaid** – Gwybodaeth dda am fioleg a hwsmonaeth anifeiliaid fferm, gan gynnwys sut orau i ddiwallu eu hanghenion ym mhob sefyllfa.
2. **Sgiliau Hwsmonaeth Anifeiliaid** – Dangos sgiliau arsylwi, trafod, gofalu a thrin anifeiliaid, a chanfod a datrys problemau.
3. **Rhinweddau Personol** – Empathi a chydawnsedd ag anifeiliaid, ymroddiad ac amynedd.

Yn ystod eu harchwiliadau lles ar y fferm, bydd archwilwyr yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA, yn cyflawni swyddogaethau Gweinidogion Cymru) ac Awdurdodau Lleol yn asesu cydymffurfiaeth â deddfwriaeth ac â'r Cod hwn. Bydd yn drosedd peidio â chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a welwch yn y blychau yn y Cod hwn sy'n ymwneud â lles. Mewn achosion sy'n mynd i'r llys i'w herlyn, gellir defnyddio p'un a yw rhywun wedi bodloni gofynion y Cod neu beidio i helpu i benderfynu a yw'n euog neu beidio.

Mae'n bosibl y bydd deddfwriaeth a gofynion eraill nad ydynt wedi'u nodi yn y Cod hwn ond y dylech fod yn gyfarwydd â nhw a chydymffurfio â nhw.

Mae Adran 4 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 yn nodi:

- (1) Bod person yn cyflawni trosedd:
 - (a) os yw gweithred ganddo neu fethiant ganddo i weithredu yn peri dioddefaint i anifail,
 - (b) os oedd yn gwybod neu y dylai fod wedi gwybod yn rhesymol y byddai ei weithred neu ei fethiant i weithredu wedi arwain at yr effaith honno neu y byddai'n debygol o fod wedi arwain at yr effaith honno,
 - (c) os yw'r anifail yn anifail gwarchoddedig, ac
 - (d) os yw'r dioddefaint yn ddiangen.

- (2) Mae person yn cyflawni trosedd:
 - (a) os yw'n gyfrifol am anifail,
 - (b) os yw gweithred person arall, neu fethiant gan berson arall i weithredu yn peri dioddefaint i'r anifail,
 - (c) os yw wedi caniatáu i hynny ddigwydd neu wedi methu â chymryd y camau priodol (drwy oruchwylio'r person arall neu fel arall) a oedd yn rhesymol o dan yr holl amgylchiadau i atal hynny rhag digwydd, ac
 - (d) os yw'r dioddefaint yn ddiangen.
- (3) Mae'r ystyriaethau pan fo'n berthnasol eu hystyried, wrth benderfynu at ddiben yr adran hon, pa un a yw dioddefaint yn ddiangen, yn cynnwys:
 - (a) pa un a ellid yn rhesymol fod wedi osgoi neu leihau'r dioddefaint;
 - (b) pa un a oedd yr ymddygiad a achosodd y dioddefaint yn cydymffurfio ag unrhyw ddeddfu perthnasol neu unrhyw ddarpariaethau perthnasol o drwydded neu god ymarfer a gyhoeddwyd o dan ddeddfiad;
 - (c) pa un a oedd yr ymddygiad a achosodd y dioddefaint at ddiben dilys, megis:
 - (i) er budd yr anifail, neu
 - (ii) er mwyn amddiffyn person, eiddo neu anifail arall;
 - (d) pa un a oedd y dioddefaint yn gymesur â diben yr ymddygiad dan sylw;
 - (e) pa un a oedd yr ymddygiad o dan yr holl amgylchiadau yn ymddygiad person rhesymol gymwys a thrugarog.
- (4) Nid oes dim yn yr adran hon yn berthnasol i ddifa anifail mewn modd priodol a thrugarog.

Mae Adran 9 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 yn nodi:

- (1) Mae person yn cyflawni trosedd os nad yw'n cymryd camau priodol sy'n rhesymol o dan yr holl amgylchiadau i sicrhau y diwellir anghenion anifail y mae'n gyfrifol amdano, i'r graddau sy'n ofynnol ar gyfer arfer da.
- (2) At ddibenion y Ddeddf hon, ystyrir bod anghenion anifail yn cynnwys:
 - (a) ei angen am amgylchedd addas,
 - (b) ei angen am ddeiet addas,
 - (c) ei angen i allu arddangos patrymau ymddygiad normal,
 - (d) unrhyw angen sydd arno i gael ei letya gydag anifeiliaid eraill, neu ar wahân i anifeiliaid eraill, ac
 - (e) ei angen i gael ei amddiffyn rhag poen, dioddefaint, anaf a chlefydau.

Awgrymir ffynonellau gwybodaeth ychwanegol ar ddiwedd y Cod hwn. Mae'r ffynonellau gwybodaeth ychwanegol hyn yn berthnasol i les ieir dodwy a chywennod, ond maent er gwybodaeth yn unig ac ni ddylid eu hystyried yn rhan o'r Cod Ymarfer.

Cyhoeddwyd y Cod hwn gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig.

Cyflwyniad

Mae'r Cod hwn (sy'n berthnasol i Gymru yn unig) yn ymdrin â phob rhan o'r sector cynhyrchu ieir dodwy, gan gynnwys cywennod ac adar bridio, a phob math o systemau hwsmonaeth. Mae'n ymdrin ag ieir dodwy unigol neu luosog a gedwir ar dyddyn (haid hamdden/iard gefn), yn ogystal â chynhyrchwyr ieir dodwy masnachol. Bydd yr argymhellion hyn yn helpu perchnogion a cheidwaid ieir dodwy i gydymffurfio â rheolau lles anifeiliaid, ond nid yw'n fwiad iddynt gymryd lle cyngor arbenigol megis cyngor milfeddyg neu gynghorydd technegol cymwysedig priodol.

Mae Atodlen 1 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'u diwygiwyd) yn gosod amodau ar gyfer cadw pob anifail a ffermir, gan gynnwys ieir dodwy. Mae Atodlenni 2, 4 a 5 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'u diwygiwyd) yn gosod safonau ychwanegol sy'n berthnasol i sefydliadau sydd â mwy na 350 o ieir dodwy. Nid yw'r safonau ychwanegol hyn yn berthnasol i sefydliadau sydd â llai na 350 o ieir dodwy, deorfeydd, ffermydd magu cywennod neu fridwyr ieir dodwy. Mae Cyngor Ewrop hefyd wedi gwneud argymhellion yn ymwneud ag ieir dodwy

a phan nad ydynt wedi'u cynnwys mewn deddfwriaeth, cânt eu cynnwys yn y Cod hwn.

Mae cadw 350 neu fwy o ieir dodwy mewn cewyll confensiynol (heb eu gwella) wedi ei wahardd yn y DU am resymau lles er 1 Ionawr 2012. Am y rheswm hwn, ni argymhellir cewyll confensiynol ar gyfer unedau bach (llai na 350 o adar). Mae gofynion cyfreithiol sy'n berthnasol i gadw 350 neu fwy o ieir dodwy (megis ar gyfer nythu, clwydo, manau crafu a dwysedd stocio) yn cael eu hargymell yn arfer da yn achos heidiau o lai na 350 o adar. Mae argymhellion y Cod hwn ar gyfer darpariaeth gyfoethogi, mynediad i'r maes a lleihau'r perygl o bigo niweidiol yn cael eu hargymell yn arfer da ar gyfer pob haid, beth bynnag yw ei maint.

Er hwylustod, mae'r tabl isod yn crynhoi'r gwahanol ddarpariaethau cyfreithiol sy'n ymwneud â lles anifeiliaid ar fferm ar gyfer gwahanol fathau o systemau cynhyrchu ieir dodwy.

Systemau cynhyrchu	Deddf Lles Anifeiliaid 2006	Atodlen 1 o WOFAR 2007	Atodlen 2 o WOFAR 2007	Atodlen 4 o WOFAR 2007	Atodlen 5 o WOFAR 2007
Deorfeydd	✓	✓	-	-	-
Cywennod	✓	✓	-	-	-
Sefydliadau â <350 o ieir dodwy, gan gynnwys tyddynod	✓	✓	-	-	-
>350 o ieir dodwy mewn systemau ysgubor	✓	✓	✓	-	✓
>350 ieir dodwy mewn systemau maes	✓	✓	✓	-	✓
>350 ieir dodwy mewn cewyll gwell	✓	✓	-	✓	✓
Ieir dodwy wedi eu magu'n organig	✓	✓	✓	-	✓
Bridwyr ieir dodwy	✓	✓	-	-	-

Mae'r ddeddfwriaeth berthnasol ar les anifeiliaid yn berthnasol i berchenogion ar bob adeg yn ogystal ag i unrhyw berson sy'n gofalu am yr ieir ar eu rhan, ble bynnag y mae'r ieir yn cael eu cadw. Dylai protocol ysgrifenedig nodi'n glir i bob parti ei gyfrifoldebau am les. Er hynny, bydd gofyn cadw at y rhwymedigaethau cyfreithiol o hyd.

Ni ddylai neb gadw na sefydlu uned ieir dodwy onid oes modd diogelu lles yr holl adar er mwyn cydymffurfio'n llawn â'r gyfraith. Gellir gwneud hyn drwy sicrhau bod yr adeiladau a'r offer, sgiliau a gallu ceidwaid heidiau a'u nifer yn briodol ar gyfer y system hwsmonaeth ac ar gyfer nifer yr adar sydd i'w cadw.

Mae'n rhaid i geidwaid heidiau o 50 neu fwy o adar gofrestru gydag APHA o fewn mis i ddechrau cadw'r nifer hwn o adar ar y safle. Anogir ceidwaid sydd â llai na 50 o adar i gofrestru hefyd.

Diffiniadau

At ddibenion y Cod hwn, crynhoir diffiniadau'r termau a ddefnyddir yn y Cod hwn isod.

Mae rhai o'r rhain (wedi eu marcio â seren) wedi dod yn uniongyrchol o'r ddeddfwriaeth berthnasol, tra bo eraill wedi eu cynnwys i roi esboniad at ddibenion y Cod.

'Bioddiogelwch' cyfres o weithredoedd rheoli a champau ffisegol wedi eu cynllunio i leihau'r perygl o gyflwyno, sefydlu a lledaenu clefydau i'r haid, o'r haid ac o fewn yr haid a phan fo'n berthnasol rhwng gwahanol heidiau ar y safle;

'Haid' grŵp o ieir sy'n cael eu gosod mewn cwt yn y daliad a'u bod yn bresennol yn y cwt hwn ar yr un pryd;

'Daliad' safle cynhyrchu lle mae'r ieir yn cael eu cadw;

'Cwt' adeilad mewn daliad lle mae haid o ieir yn cael eu cadw;

'Pigo niweidiol' pan fydd aderyn yn pigo plu a chroen adar eraill. Mae'n cynnwys pigo addfwyn a ffyrnig ar blu, pigo fentiau a phigo canibalaidd;

'Perchennog' neu 'geidwad' (*) person neu bersonau sy'n naturiol neu'n gyfreithiol gyfrifol neu'n gofalu am anifeiliaid pa un ai dros dro neu'n barhaol;

'Iâr ddodwy' (*) iâr o'r rhywogaeth Gallus gallus sydd wedi cyrraedd aeddfedrwydd dodwy ac sy'n cael ei chadw i gynhyrchu wyau na fwriedir iddynt ddeori;

'Sarn' (*) mewn cysylltiad ag ieir dodwy, unrhyw ddeunydd hyfriw (hawdd ei chwalu) sy'n galluogi'r adar hynny i ddiwallu eu hangenion ymddygiad;

'Anffurfio' triniaeth sy'n cynnwys ymyrryd â meinweoedd sensitif neu strwythur esgyrn yr anifail nad yw'n rhan o driniaeth feddygol;

'Nyth' (*) lle ar wahân i iâr unigol neu grŵp o ieir ddodwy wyau, lle na chaiff cydrannau ei lawr gynnwys rhwyllau gwifrog a all ddod i gysylltiad â'r aderyn neu'r adar;

'Cywen' term a ddefnyddir i ddisgrifio adar yn ystod eu cyfnod magu ac ar adeg eu trosglwyddo i'r cwt dodwy pan nad yw'r haid wedi dodwy wyau. Ar ôl i'r wy cyntaf gael ei ddodwy yn yr haid, cyfeirir ati fel haid o ieir dodwy;

'Gwiddon goch' ectoparasitiaid, (diamedr hyd at 0.7 mm, lliw llwyd neu goch) sy'n bwydo ar waed ieir;

'Lle y gellir ei ddefnyddio' (*) mewn cysylltiad ag ieir dodwy, y lle a ddefnyddir gan ieir dodwy, heblaw'r nyth, sydd o leiaf 30 cm o led gyda llawr ar ogwydd heb fod yn fwy na 14% ac sydd o leiaf 45 cm o uchder.

Adran 1: Argymhellion ar gyfer pob system hwsmonaeth

Crefft Ffermio Da Byw a Staffio

Mae Paragraff 1 o Atodlen 1 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'u diwygiwyd) yn nodi:

- (1) Rhaid i anifeiliaid gael gofal gan nifer digonol o staff sy'n meddu ar y gallu, yr wybodaeth a'r hyfedredd proffesiynol priodol.

Crefft ffermio da byw yw un o'r prif ddylanwadau ar les ieir dodwy. Bydd gan geidwad da agwedd drugarog a thosturiol, y gallu i ragweld ac osgoi llawer o broblemau lles posibl, a'r gallu i adnabod y problemau lles hynny sydd yn codi ac ymateb iddynt yn brydlon. Dylai'r rheini sy'n gyfrifol am reoli uned ieir dodwy sicrhau bod staff cymwys a brwdfrydig yn gofalu am yr ieir. Cyn sefydlu neu ehangu uned, mae'n bwysig sicrhau bod lefel hwsmonaeth yn ddigonol i ddiogelu lles yr ieir.

Dylai'r staff i gyd a phob perchennog/ceidwad (pan na chyflogir staff) gan gynnwys y rhai sydd dan gontract i gynnal tasgau rheoli penodol, ddangos eu bod yn deall anghenion lles a bioleg sylfaenol yr ieir. Rhag eu dychryn ac o bosib eu hanafu, dylech drafod yr adar mewn modd gofalus, cadarnhaol a thirion o'r dechrau.

Mae angen gwybodaeth a sgiliau penodol ar staff a pherchnogion/ceidwaid (pan na chyflogir staff). Mae'n rhaid eu bod wedi cael hyfforddiant a'u bod yn gymwys ar gyfer unrhyw dasgau penodol y mae gofyn iddynt eu gwneud a'u bod yn gymwys i ddefnyddio unrhyw offer. Mewn sefyllfa fferm, dylai hyn gael ei ddatblygu drwy weithio gyda staff medrus sydd â phrofiad o'r system briodol. Tra byddant o dan oruchwyliaeth eraill a chyn cael cyfrifoldeb eu hunain dros anifeiliaid, dylai staff allu dangos eu bod yn gymwys ac yn meddu ar ddealltwriaeth, gan gynnwys gallu ymarferol ar y fferm, i sicrhau eu bod yn gallu diogelu'r anifeiliaid dan unrhyw amodau a ragwelir.

Dylai pawb sy'n gyfrifol am ieir dodwy gan gynnwys y rhai a gyflogir gan gontractwyr, fynd ar gyrsiau gloywi yn ogystal â chael hyfforddiant rheolaidd. Yn ddelfrydol dylai'r hyfforddiant arwain at gydnabyddiaeth ardystiedig o gymhwysedd.

Yn ogystal â gallu adnabod ymddygiad normal ac iechyd a lles da, dylai'r rheini sy'n gweithio gydag ieir dodwy allu adnabod arwyddion o salwch neu glefyd a gwybod sut i geisio cyngor milfeddyg. Os oes angen cynnal unrhyw dasgau arbenigol, er enghraifft rhoi moddion neu ddifa heb greulondeb, dylid rhoi hyfforddiant penodol a chadw cofnod o'r staff sy'n gymwys i wneud y tasgau hynny. Os nad yw hynny'n bosibl, dylid defnyddio contractwr cymwys sy'n defnyddio staff cymwys wedi'u hyfforddi.

Mae'n hanfodol sicrhau bod digon o amser ar gael o fewn trefn diwrnod gwaith arferol i archwilio'r ieir yn drylwyr ac unrhyw osodiadau sy'n hanfodol ar gyfer eu hiechyd a'u lles ac i gymryd camau i ddatrys unrhyw broblemau yn brydlon. Dylai fod gan y perchennog/ceidwad wybodaeth ddigonol am y system hwsmonaeth er mwyn iddo allu barnu a yw'r amgylchedd cyfan yn addas i iechyd a lles yr adar.

Ni ddylai unrhyw ieir a fegir at ddibenion ffermio gael eu defnyddio i gyflawni unrhyw nod arall, gan gynnwys sioeau cyhoeddus neu arddangosfeydd, os bydd defnydd o'r fath yn debygol o fod yn andwyol i'w hiechyd neu les.

Cynllun iechyd a lles

Dylid cynnal cynllun iechyd a lles ar gyfer pob fferm, gan nodi'r gweithgareddau iechyd a hwsmonaeth y bydd angen eu gwneud gan gwmpasu'r cylch cynhyrchu cyfan. Dylid nodi'n glir y tasgau dyddiol arferol ac archwiliadau sy'n hanfodol i iechyd a lles yr adar. Dylai'r cynllun gael ei ddatblygu yn unol â chyngor milfeddygol priodol a dylid adolygu ei effeithiolrwydd o ran perfformiad a'i ddiweddarau'n rheolaidd, ar ddiwedd yr haid neu'n flynyddol ar safle lle ceir amrywiaeth o oedrannau.

Dylai unrhyw gynllun sefydlu gweithdrefnau rheoli a mesurau rheoli i leihau'r perygl o heintiau ac anafiadau, a dylai gynnwys rhaglen frechu effeithiol. Ni ddylid defnyddio gwrthfotigau fel mater o drefn, dim ond at ddibenion triniaeth a bennir gan filfeddyg yn achos diagnosis o glefyd neu haint penodol er mwyn osgoi problem les.

Dylai'r cynllun gynnwys mesurau wrth gefn i ymdrin â chlefyd endemig a chlefyd hysbysadwy posibl. Dylai'r cynllun hefyd gynnwys asesiadau o ganlyniadau lles i asesu a monitro lles parhaus yr ieir.

Mae llawer o ffynonellau cyngor technegol ar gael i gynhyrchwyr, yn ogystal â chyngor eu milfeddyg. Gallent hefyd gael archwiliadau rheolaidd dan gynlluniau gwarantu annibynnol yn rhan o'u cytundeb cyflenwi manwerthwyr a gan reoleiddwyr y llywodraeth. Ar y cyfan nid yw'r cyfryngau cymdeithasol wedi eu rheoleiddio felly gallent fod yn ffynonellau gwybodaeth annibynadwy. Dylai cyngor gael ei wirio gan filfeddyg neu gynghorydd technegol cymwys priodol.

Yn rhan o'r cynllun iechyd a lles, dylai perchnogion/ceidwaid sefydlu o flaen llaw y camau gweithredu gorau petai problemau'n codi a sicrhau eu bod yn ceisio cyngor milfeddyg neu gyngor arbenigol arall pan fo angen.

Bioddiogelwch a rheoli clefydau

Mae Paragraff 4 o Atodlen 5 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'u diwygiwyd) yn nodi:

- 4(1) Rhaid i'r rhannau hynny o adeiladau, offer neu lestri sy'n dod i gysylltiad â'r ieir gael eu glanhau a'u diheintio'n drylwyr ac yn rheolaidd a, beth bynnag, pob tro y diboblogir a chyn dod â llwyth newydd o ieir i mewn.
- 4(2) Tra bo ieir yn y cewyll:
- (a) rhaid i'r arwynebau a'r holl offer gael eu cadw'n foddhaol o lân;
 - (b) rhaid cael gwared ar garthion; a
 - (c) rhaid symud ieir marw oddi yno bob dydd.

Mae bioddiogelwch yn berthnasol i heidiau o bob maint, o dyddynnod ag un neu ddau o adar i unedau ffermio masnachol.

Dylai mesurau bioddiogelwch da arwain at:

- unedau fferm/tyddynnod mwy diogel rhag i glefydau heintus gael eu cyflwyno;
- cadw'r posiblwydd o ledaenu unrhyw glefyd o fewn yr uned, yn enwedig o haid i haid, mor isel â phosibl; a
- sicrhau bod y perygl o ledaenu clefyd o'r fferm i fferm arall neu i rywle arall mor isel â phosibl.

Gellir cyflawni bioddiogelwch da trwy:

- gyfyngu ar faint o gerbydau neu offer o'r tu allan sy'n dod i'r fferm a rhoi gweithdrefnau glanhau a diheintio ar waith pan fo hyn yn digwydd;
- sicrhau gweithdrefnau rheoli a hwsmonaeth ar y safle. Mae'r rhain yn cynnwys: pan fo'n bosibl, trefn rheoli safle "pob un i mewn – pob un allan", fesul safle neu fesul bloc lletya;
- protocolau bioddiogelwch wrth symud rhwng gwahanol heidiau ar y safle, yn enwedig pan fo heidiau o oedrannau gwahanol ar y safle;

- manau diheintio ym mynedfa ac allanfa pob adran letya neu fagu;
- gwahanu cyfrifoldebau staff i adrannau penodol a/neu ddilyn protocolau diheintio llym rhwng heidiau o wahanol oedran;
- trefn reoli ddyddiol sy'n symud o'r adar ieuengaf i'r adar hynaf;
- hylendid da ar draws y safle, gan gynnwys protocolau yn y cynllun iechyd a lles ar gyfer hylendid staff, a gweithdrefnau glanhau a diheintio wrth symud rhwng heidiau a blociau lletya eraill: rhaglenni ataliol ar gyfer rheoli clefydau, gan gynnwys rhaglenni brechu a rheoli'r gwiddon coch;
- rhaglen rheoli plâu i geisio atal cnofilod, adar gwyllt, bywyd gwyllt, anifeiliaid anwes domestig a pheryglon eraill rhag cael mynd at yr anifeiliaid a'r storfeydd bwyd; a
- sicrhau bod adar yn dod yn gyfarwydd â newidiadau i'r drefn arferol wrth gyfyngu hefyd ar ddigwyddiadau neu amodau sy'n achosi straen i'r adar ac y gellir eu hosgoi.

Un ffordd y gallai clefyd adar hysbysadwy ledaenu i ddofednod yw trwy gysylltiad ag adar gwyllt sydd wedi'u heintio. Nid yw'n bosibl atal pob haint yn yr awyr rhag mynd i mewn i uned ond, wrth gynllunio safleoedd newydd, dylid ystyried eu lleoli mor bell â phosibl o safleoedd sy'n bod eisoes yn ogystal ag ardaloedd lle mae adar gwyllt mudol yn ymgasglu, er mwyn gwella bioddiogelwch. Canllaw defnyddiol yw'r 3 km a argymhellir fel radiws Parth Gwarchod ar gyfer rheoli clefydau hysbysadwy, megis fflw adar pathogenig iawn. Dylid hefyd ystyried y pellter rhwng cytiau ar yr un safle. Dylid osgoi pyllau dŵr ar y safle ond os nad yw hyn yn bosibl yna dylid sicrhau nad yw'r ieir yn gallu mynd atynt. Yn yr un modd, ni ddylai adar gwyllt sy'n ymgasglu mewn pyllau dŵr, neu fel arall, gael at fwyd a diod yr ieir, na nythu a chlwydo yn adeiladau'r dofednod. Dylid rhoi system rheoli fermin ar waith i gyfyngu ar nifer y cnofilod a phlâu sy'n cael gafael ar fwyd ieir a'i halogi.

Dim ond ymwelwyr hanfodol ddylai gael mynediad at yr uned. Dylai pob ymwelydd, gan gynnwys arolygwyr, gydymffurfio â'r drefn fioldiogelwch sy'n ofynnol ac a bennir gan y perchennog/ceidwad (a allai newid yn sgil heriau clefyd newidiol), gan gynnwys cysylltiad ag aderyn personol/preifat. Dylai ymwelwyr ddilyn gweithdrefnau diheintio llym a gwisgo dillad ac esgidiau wedi eu neilltuo ar gyfer uned. Dylid darparu llyfr ymwelwyr a dylai pob ymwelydd lofnodi a datgan nad ydynt wedi bod ar gyfyl dofednod eraill dros gyfnod a gytunwyd, fel a bennwyd yn y cynllun iechyd a lles. Dylid darparu system i rybuddio staff neu ymwelwyr wrth y gatiau ynghylch y gofynion cyn iddynt ddod i mewn i'r safle. Dylid ystyried a oes raid i ymwelwyr ddod i mewn i ardal yr adar.

Byddai'n arfer da i staff fferm beidio â chadw eu hadar eu hunain gartref. Os gwnânt hynny yna mae'n rhaid iddynt fod yn fwy gwyliadwrs o arwyddion o glefydau a hyd yn oed yn fwy gofalus ynghylch bioddiogelwch gartref ac ar y fferm. Pan fo'n bosibl dylid cadw adar y dŵr (h.y. gwyddau a hwyaid) ar wahân i rywogaethau dofednod eraill.

Dylid lleoli cyfleusterau llwytho a phan fo'n bosibl, biniau bwyd a manau casglu stoc marw ar ffin allanol yr uned. Os cânt eu defnyddio, dylai adeiladau ynysu ar gyfer stoc newydd fod mor agos â phosibl i fynedfa'r fferm ac i ffwrdd o adeiladau/meysydd er mwyn gallu monitro clefydau. Pan fo'n bosibl dylid cadw cerbydau sy'n ymweld ag unedau dofednod eraill oddi ar yr uned, ond pan fo mynediad yn hanfodol, dylai olwynion ac esgidiau gael eu glanhau a'u diheintio'n drylwyr ar y ffordd i mewn ac ar y ffordd allan.

Ar ôl eu gwacáu, dylid glanhau cytiau adar yn drylwyr i gael gwared ar ddeunydd organig; pan fo'n briodol, dylid eu golchi â glanedydd; ac yna eu diheintio. Dylid cael gwared ar hen sarn o'r cwt a'r safle cyn ailstocio i leihau'r risg o drosglwyddo clefydau.

Fel mater o drefn dylai perchnogion/ceidwaid ddefnyddio ffynonellau gwybodaeth gwyliadwriaeth genedlaethol i weld a oes diagnosis o glefyd yn yr ardal.

Dylai pob perchennog/ceidwad fod yn gyfarwydd â'r arwyddion a'r symptomau sy'n gysylltiedig â chlefydau hysbysadwy sy'n effeithio ar ieir dodwy, gan gynnwys ffliw adar a chlefyd Newcastle. Mae gan berchennog/ceidwad sy'n amau bod yr haid yn dioddef o glefyd hysbysadwy ddyletswydd gyfreithiol i adrodd am hyn wrth APHA. Mae pob haid o ieir dodwy sydd â 350 neu fwy o ieir yn cael ei monitro o dan y Rhaglen Genedlaethol i Reoli Salmonela. O dan y rhaglen hon ceir rhwymedigaethau cyfreithiol ychwanegol.

Pan gaiff clefyd hysbysadwy ei gadarnhau mewn adar ar y fferm/tyddyn neu unedau eraill, gosodir mesurau bioddiogelwch gorfodol a chyfyngiadau gorfodol ar symudiadau a allai barhau am gyfnod sylweddol a gellid bod gofyniad i gadw adar maes yn eu cytiau.

Pan fydd achos o glefyd bydd APHA yn cysylltu â cheidwaid cofrestredig drwy e-bost neu neges destun. Dylai ceidwaid nad ydynt wedi cofrestru ag APHA geisio gwybodaeth o wefan rheoli clefydau Defra/APHA a dylent gofrestru i gael rhybuddion clefyd APHA.

Cynllunio wrth gefn ar gyfer clefydau ac argyfyngau eraill

Dylid rhoi mesurau ar waith ar gyfer cynllunio wrth gefn yn dilyn asesiad o beryglon posibl. Dylai pob perchennog/ceidwad sicrhau ei fod ef, neu o leiaf un aelod cyfrifol o'r staff ar gael trwy'r amser i gymryd y camau angenrheidiol. Dylai cynlluniau argyfwng ymdrin â digwyddiadau megis: torri cyflenwad bwyd, pŵer neu ddŵr, gan gynnwys pan fo offer awtomatig yn methu ac nad oes modd ei gywiro ar unwaith:

- straen gwres;
- trychinebau naturiol, megis llifogydd;
- tanau;
- trefniadau i ganiatáu mynediad ar frys at adeiladau sydd wedi'u cloi petai argyfwng, er enghraifft, trwy ddarparu cyfarwyddiadau clir gyda manylion cyswllt mewn argyfwng;
- cyfarwyddiadau ar gyfer cyfyngiadau tymor hir a thymor byr a osodir mewn achos o glefyd hysbysadwy, gan gynnwys ymdrin ag oedi wrth gludo adar i'w lladd a lletya adar maes dros dro sy'n orfodol; a
- threfniadau ar gyfer difa a gwaredu heidiau, pan fo angen diboblogi mewn achos o glefyd hysbysadwy neu mewn achos o halogi bwyd neu borfa â thocsinau.

Dylid ystyried defnyddio systemau larwm sy'n weithredol bob awr o bob dydd, sy'n caniatáu i staff ar y safle, neu ar ddyletswydd o bell, gael rhybudd o argyfwng yn brydlon. Dylai golau cludadwy megis tortsh pen fod ar gael ar gyfer archwiliadau mewn argyfwng gyda'r nos.

Pan ragwelir y bydd angen lletya ieir sydd fel arfer yn ieir maes am dymor hir, dylid ystyried darparu lloriau sarn ychwanegol, cyfoethogi, a threfnu bod golau dydd naturiol ar gael o fewn y cwt cyfyng, er mwyn osgoi cynnydd mewn achosion o bigo plu niweidiol ymhlith adar sydd wedi arfer â manau crwydro. Gallai ychwanegu "feranda" neu "ardd aeaf" at y prif lety fodloni'r gofynion hyn.

Cyfrifoldeb y perchennog/ceidwad yw lles anifail yn ystod unrhyw gyfyngiadau a orfodir ar symud neu unrhyw argyfwng arall ar y fferm. Dylid trafod unrhyw bryderon ynghylch lles anifeiliaid â milfeddyg a phan fo'n briodol, dylid adrodd am hyn wrth APHA os yw amodau lles anifeiliaid yn dirywio.

Archwilio ac ymateb i iechyd a lles gwael

Mae Paragraff 2 (1) a (2) o Atodlen 1 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'u diwygiwyd) yn nodi:

- 2(1) Rhaid i anifeiliaid a gedwir mewn systemau hwsmonaeth lle mae eu lles yn dibynnu ar sylw dynol rheolaidd gael eu harchwilio o leiaf unwaith y dydd i sicrhau bod cyflwr eu lles yn dda; a
- 2(2) Rhaid i anifeiliaid a gedwir mewn systemau hwsmonaeth lle nad yw eu lles yn dibynnu ar sylw dynol rheolaidd gael eu harchwilio ar ysbeidiau digonol i osgoi unrhyw ddiodefaint.

Mae Paragraff 3 o Atodlen 1 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'u diwygiwyd) yn nodi:

- (3) Pan gedwir anifeiliaid mewn adeilad, mae'n rhaid cael digon o oleuadau (naill ai'n sefydlog neu'n symudol) i'w galluogi i gael eu harchwilio'n drwyadl ar unrhyw adeg.

Mae Paragraff 1 o Atodlen 5 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'u diwygiwyd) yn nodi:

- (1) Rhaid i bob iâr gael ei harchwilio gan y perchennog neu berson sy'n gyfrifol amdanynt o leiaf unwaith y dydd.

Mae Paragraff 6 o Atodlen 5 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'u diwygiwyd) yn nodi:

- (6) Mewn unrhyw lety sy'n cynnwys dwy neu ragor o haenau o gewyll, mae'n rhaid cael dyfeisiau neu gymryd camau priodol i ganiatáu archwiliad o bob haen yn ddiraffferth ac i hwyluso symud ieir oddi yno.

Mae Paragraffau 5 a 6 o Atodlen 1 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'u diwygiwyd) yn nodi:

- (5) Rhaid gofalu'n briodol ac yn ddi-oed am unrhyw anifeiliaid sy'n ymddangos yn sâl neu wedi eu hanafu; pan nad ydynt yn ymateb i'r gofal hwnnw, mae'n rhaid cael cyngor milfeddygol cyn gynted ag y bo modd.
- (6) Pan fo'n angenrheidiol, mae'n rhaid ynysu anifeiliaid sâl neu sydd wedi eu hanafu mewn llety addas â gwasarn cysurus a sych, pan fo'n briodol.

Dylid cynnal archwiliad trwyadl o leiaf unwaith y dydd, ni waeth a oes system arolygu awtomatig ar waith. Byddai'n arfer da cynnal tri archwiliad wedi eu gwasgaru ar hyd y diwrnod. Hyd yn oed pan gysylltir yr archwiliadau ag ymweliadau eraill â chytiau'r dofednod, dylai pob archwiliad iechyd a lles gael ei gynnal fel gweithdrefn benodol ar wahân.

Dylai'r archwiliadau fod yn ddigon trwyadl i ganfod salwch neu anaf mewn ieir unigol a dylent gynnwys archwiliad o flychau nythu lle gall ieir sâl fynd am loches. Dylid monitro agweddau ar yr amgylchedd ffisegol megis cyflwr y sarn ac ansawdd yr aer a dylid datrys unrhyw broblem ar unwaith.

Dylai perchnogion/ceidwaid geisio cyflwyno rhywfaint o amrywiaeth i'r drefn arferol o archwilio, gan gynnwys aelodau gwahanol o'r staff pan fo'n bosibl, i helpu i leihau ofn a straen sy'n gysylltiedig ag unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r system reoli yn ystod cyfnodau magu a dodwy. Mae archwilio'n aml yn helpu ieir i ymgyfarwyddo â phresenoldeb pobl yn y cytiau a'i wneud yn rhywbeth sy'n rhan arferol o fywyd bob dydd.

Dylid cynllunio'r cytiau a'r offer fel bod modd gweld yr holl ieir dodwy yn glir. Mae'n rhaid i lefelau golau yn ystod archwiliadau fod yn ddigonol i sicrhau bod pob aderyn i'w weld yn glir.

Dylai archwilio'r haid gynnwys asesu cyflwr y corff, unrhyw amrywiaeth o ran twf yn yr haid, anadlu, marwolaeth, cyflwr y plu, arwyddion o bigo ar y pen neu'r fent, cyflwr y baw, y llygaid, y croen, y big, y coesau, y traed a'r crafangau, a phan fo'n briodol, y grib a'r dagell. Dylid rhoi sylw hefyd i bresenoldeb parasitiaid allanol, i faint o fwyd a dŵr a yfir a lefel cynhyrchu wyau. Dylai synau a gweithgarwch aderyn unigol iach fod yn briodol i'w oedran, ei frîd neu ei fath. Dylai'r llygaid fod yn glir ac yn loyw, dylai'r osgo fod yn dda, dylai'r croen fod yn iach ac yn lân, a dylai'r plu fod mewn cyflwr da a gorchuddio'r corff yn gywir, dylai'r coesau a'r traed fod wedi'u ffurfio'n dda, dylent gerdded yn effeithiol a mynd ati i fwyta ac yfed.

Dylid cynnal archwiliadau ar bob lefel o system cewyll â sawl haen a system cewyll gwell. Er mwyn sicrhau archwiliad trylwyr, dylai'r perchennog/ceidwad fynd heibio pob aderyn yn ddigon agos i'w annog i symud, gan ofalu i beidio â'i ddychryn gan symudiadau sydyn na sŵn na newid lefelau golau sy'n anghyfarwydd i'r îar. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl canfod unrhyw unigolyn sy'n sâl, wedi'i anafu neu'n wan er mwyn i'r perchennog/ceidwad gymryd camau priodol. Pan fo'r archwiliad yn awgrymu bod perygl i iechyd a lles anifail dylid archwilio anifail yn unigol ac efallai bydd angen ymyriad di-oed gan gynnwys difa heb greulondeb.

Gallai arwyddion cynnar o salwch gynnwys newidiadau o ran bwyta ac yfed, glanhau'r plu, clochdar a lefelau gweithgarwch yr haid. Efallai hefyd y gwelir gostyngiad yn nifer yr wyau a gynhyrchir a newidiadau yn ansawdd yr wyau, megis diffygion yn y plisgyn. Gall unrhyw newid o ran bwyta, yfed neu ymddygiad arferol fod yn arwydd o broblem a dylid rhoi sylw i hyn ar unwaith, er mwyn canfod yr achos a datrys unrhyw broblem sy'n codi a fyddai'n bygwth iechyd a lles yr haid.

Dylai'r perchennog/ceidwad allu rhagweld problemau neu eu hadnabod yn eu cyfnodau cynharaf ac mewn nifer o achosion, canfod yr

achos a datrys y problemau ar unwaith. Gall cofnodi'r holl ddiwyddiadau sy'n awgrymu achos o bryder ynghylch iechyd neu les fod o gymorth, yn ogystal â gofynion cofnodi cyfreithiol gofynnol o ran marwolaethau a meddyginiaethau. Dylai'r fath fonitro gael ei gynnwys yn y cynllun iechyd a lles, er mwyn ei gwneud yn glir i staff beth yw'r mesurau penodol i'w gwneud yn ddyddiol neu ar adeg gweithdrefnau rheoli penodol. Dylid ceisio cyngor pan fo'n briodol.

Dylid ystyried y posibilrwydd y gall clefyd hysbysadwy fod wedi effeithio ar yr adar a dylai pob perchennog/ceidwad ac aelod o staff fod yn ymwybodol o'r peryglon a'r symptomau clinigol sy'n gysylltiedig â chlefydau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg. Os nad yw'r achos yn amlwg, neu os nad yw'r camau a gymerwyd yn effeithiol, dylid ceisio cyngor milfeddyg ar unwaith; gallai methu â gwneud hyn achosi i'r îar unigol a/neu i ieir eraill ddi-dded yn ddiangen oherwydd diffyg gweithredu prydlon.

Rhaid i ieir sydd wedi eu hanafu neu ag arwyddion sy'n awgrymu eu bod yn sâl ac yn debygol o ddi-dded gael eu trin yn briodol yn ddi-oed, a'u gwahanu oddi wrth weddill yr haid, os oes angen hynny, ar gyfer triniaeth, gorffwys ac adferiad, neu ar gyfer cael eu difa heb greulondeb ar unwaith. Pan welir arwyddion o anafiadau mynych a all fod yn gysylltiedig â'r amgylchedd, megis trawma i'r adenydd, coesau neu asgwrn y frest (carina), dylid archwilio'r rhain a datrys y broblem cyn gynted â phosibl.

Dylid symud adar marw a welir yn ystod archwiliad o'r cwt a'u gwaredu'r briodol yn ddi-oed.

Pan fo unrhyw aderyn yn cael ei ddifa, mae'n rhaid i hyn gael ei wneud drwy ddefnyddio dull a ganiateir yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol a'r gweithdrefnau a gynhwysir yn y cynllun iechyd a lles.

Asesiadau canlyniadau lles

Mae llawer o safonau lles cydnabyddedig wedi eu seilio ar “mewnbynau” gan y perchennog/ceidwad a staff, megis yn ystod gweithdrefnau rheoli a hwsmonaeth ddyddiol, neu adnoddau a ddarperir i'r anifeiliaid megis llety, bwyd a diod. Diffinnir llawer o'r rhain yn safonau gofynnol yn ôl y gyfraith a chânt eu trafod yn y Cod hwn.

Gall defnyddio canlyniadau lles helpu'r perchennog/ceidwad i ddeall sut y mae'r mewnbynau hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar adar unigol a'r haid gyfan. Cynllunnir yr asesiadau i fod yn ymarferol a mesuradwy, gyda sail wyddonol i ddangos cyflwr lles cadarnhaol neu negyddol yr adar.

Mewn systemau masnachol dylai milfeddyg gytuno ar yr asesiadau canlyniadau lles arferol a gynhelir gan y perchennog/ceidwad. Gallai gofynion ychwanegol gael eu nodi'n fanwl drwy gynlluniau preifat neu gontractau manwerthwyr. Dylid cofnodi manylion yr holl fesurau a gytunwyd yn fanwl ac yn ddyddiol. Gall gwybodaeth ychwanegol o gyfnodau magu eraill (er enghraifft, gwybodaeth deordai a data magu cywennod) ac o ladd-dai ar adeg diboblogi roi rhagor o wybodaeth am iechyd a lles yr heidiau.

Mae'r asesiadau canlyniadau lles a argymhellir ar gyfer ieir dodwy yn cynnwys:

- Colli plu
- Aflendid yr aderyn
- Ymddygiadau gelyniaethus, gan gynnwys pigo niweidiol a bygythiol
- Ymddygiad nerfus neu ofnus
- Nifer yr adar y mae angen eu hynysu/sydd angen gofal ychwanegol
- Marwolaeth.

Materion iechyd a lles penodol

Pigo niweidiol, pigo bygythiol a cholli plu

Mae absenoldeb pigo niweidiol mewn haid yn un o'r prif ganlyniadau cadarnhaol. Dylid ymdrechu'n galed i leihau pigo niweidiol er mwyn atal yr angen i docio pigau cyn gynted a bo modd. Er hynny, ni ddylid rhoi'r gorau i docio pigau nes bod y perchennog/ceidwad yn ffyddiog, o dan y gweithdrefnau magu, lletya a rheoli, na fyddai hyn yn arwain at fwy o risg o lawer o bigo niweidiol.

Gall unrhyw newid sydyn mewn rheoli, amgylchedd neu glefyd (er enghraifft, gwiddon coch), hynny yw, pethau sy'n peri straen, ysgogi achosion o bigo niweidiol. Mae hyn yn cynnwys pigo ysgafn (pigo blaen y plu, ychydig iawn o ymateb gan yr aderyn sy'n cael ei bigo) ac ymlaen at bigo plu difrifol (pigo grymus, tynnu plu, colli plu amlwg ar y cefn, fent, ardal y gynffon, efallai bydd yr aderyn sy'n cael ei bigo yn cadw sŵn) a phigo canibalaidd (pigo croen heb blu yn dilyn pigo difrifol gan arwain at golli gwaed, haint, marwolaeth). Mae pigo fentiau yn ffurf benodol o bigo canibalaidd sy'n targedu ardal y fent a gall arwain at organau mewnol yn cael eu tynnu allan; gall digwydd i adar â phlu llawn, a chyfnod risg uchel yw adeg dechrau dodwy.

Nid yw pigo ymosodol yr un peth â phigo niweidiol, ac mae'n targedu gwddf a phen aderyn arall. Mae'n cynnwys ymladd a chwrsio adar eraill, sy'n digwydd yn rhan o ymddygiad naturiol i sefydlu hierarchaeth uchafiaeth neu “drefn bigo” yn yr haid ac o ganlyniad i gystadlu am adnoddau. Mae'n gyffredin i adar gadw sŵn yn ystod gweithgarwch ymosodol. Os yw lefelau ymosod yn uchel mewn haid yna gall achosi pigo niweidiol a chanibaliaeth. Mae'r hyn sy'n ysgogi pigo ymosodol yn wahanol i'r hyn sy'n ysgogi pigo niweidiol ac efallai gellir ei weld pan geir newidiadau i reolaeth, felly mae'n bwysig bod y perchennog/ceidwad yn cymryd amser i wyllo'r adar er mwyn dod i ddeall pa fath o bigo sy'n digwydd yn yr haid.

Dylai perchnogion/ceidwaid ystyried dewis llinach lle mae'r duedd i bigo'n niweidiol yn llai.

Dylai cynllun gweithredu pwrpasol i leihau achosion o bigo niweidiol ac felly'r angen i docio pigau fod yn rhan o unrhyw gynllun iechyd a lles. Dylai hwn gael ei lunio drwy ymgynghori â milfeddyg. Dylai nodi gweithdrefnau rheoli penodol ac ymyriad, o fagu cynnar i gyfnod dodwy, i leihau'r perygl o bigo niweidiol a'r camau i'w cymryd petai achosion o hyn. Dylid cofnodi sgoriau plu drwy gydol oes haid a chofnodi achosion o bigo niweidiol ac archwilio i geisio canfod achos posibl y pigo. Dylid asesu cynnydd fesul haid yn rhan o adolygiad y cynllun, gyda'r nod o wella'n barhaus.

Gallai strategaethau ac ymyriadau a argymhellir gynnwys:

- Rheoli'r trosglwyddo o gwt magu i gwt dodwy drwy sicrhau bod yr amodau mor debyg â phosib. Mae hwn yn gyfnod â risg uchel o straen ac ymddygiad cynnar o bigo plu a dylid sicrhau bod y trosglwyddo mor llyfn â phosib. Gweler hefyd Adran 2;
- Caniatáu i'r cywennod gael mynediad ar unwaith at sarn hyfriw o ansawdd da;
- Rhoi mynediad cynnar i'r maes i'r cywennod;
- Annog defnydd o'r maes drwy ddarparu cysgodfannau ger y cwt; cynyddu llystyfiant a'i amrywio; cyd-bori â rhywogaethau cydnaws nad ydynt yn adar; a rhoi cyfleoedd i chwilota am fwyd a darparu offer yfed priodol y tu allan;
- Mynd ati i reoli'r maes drwy gadw'r ardal o amgylch yr agoriadau yn lân a sicrhau bod dŵr yn draenio'n iawn, rheoli ysglyfaethwyr a chylchdroi porfa;
- Cynnal sarn hyfriw da a dwfn drwy gydol y cyfnod dodwy i hybu chwilota am fwyd ac ymdrochi mewn llwch;
- Rhoi cyfleoedd ychwanegol i chwilota am fwyd ac ymdrochi mewn llwch, megis byrnau gwair neu wellt (rhaid cyfan i ganiatáu i'r adar eu chwalu) neu mewn rhwydi crog; amrywiaeth o bethau i'w pigo a blychau ymdrochi mewn llwch;
- Lleihau newidiadau i'r deiet – pan fo'n bosib, dylid cymysgu hen ddeiet a deiet newydd drwy unrhyw gyfnod pontio. Osgoi newid o ddeiet o brotein uchel i ddeiet o brotein isel. Mae angen mwy o amser ar iâr i twyta mash o'i gymharu â phelenni ac mae'n cadw'r adar yn brysur;
- Cynyddu ffibr anhydawdd yn y deiet – yn y prif ddeiet neu fel porthiant ychwanegol, megis ceirch cyflawn, gwenith, allfalffa, India-corn/haidd/pys, silwair neu foron. Er hynny, rhaid sicrhau nad yw dulliau o ychwanegu porthiant yn denu cnofilod;
- Rheoli iechyd a hylendid a chynnal trefniadau effeithiol i reoli clefydau, er enghraifft, monitro a rheoli lefelau gwiddon coch a llyngyr;
- Lleihau straen yn yr haid drwy ddatblygu perthynas dda rhwng dyn ac anifail, cynnal archwiliadau rheolaidd ac osgoi cyferbyniadau mawr o ran golau, sŵn a thymheredd;
- Archwilio adar yn fwy rheolaidd nag arfer ar ôl newid sydyn yn y dull rheoli sy'n debygol o gynyddu lefelau straen, er mwyn canfod unrhyw bigo niweidiol ar y cyfle cyntaf, gan alluogi camau i gael eu cymryd i drin neu ddifa adar sydd wedi eu niweidio;
- Ystyried cyflwyno cyfleoedd ychwanegol i glwydo yn rhan fertigol yr adeilad. Gall darparu opsiynau gorffwys a chlwydo ychwanegol, sy'n briodol i'r cwt, galluogi adar ymostyngol i osgoi sefyllfaoedd pan allant gael eu pigo; ac

- Ystyried rhoi “ferandas” neu “erddi gaeaf” fel dulliau ymarferol o leihau dwysedd stoc. Mae’r golau naturiol a’r lle ychwanegol, yn ogystal â’r cyfleoedd ar gyfer mannau cyfoethogi ychwanegol, i gyd yn helpu i gynnal lles adar.

Ar ôl i bob strategaeth reoli gael ei rhoi ar waith a bod plu mewn cyflwr da drwy gydol y cyfnod dodwy mewn o leiaf dwy haid yn ddilynol, dylid mynd ati i ystyried peidio â thocio pigau mewn heidiau yn y dyfodol, mewn ymgynghoriad â milfeddyg a chynghorwyr technegol eraill sydd wedi’u cymhwyso’n briodol.

Iechyd ysgerbydol

Mae iechyd ysgerbydol yn agwedd bwysig ar les ieir dodwy. Gall toriadau achosi poen ac felly lles gwael. Gallant ddigwydd yn ystod y cyfnod magu neu ddodwy neu yn ystod diboblogi, cludo neu yn y lladd-dy. Pan ganfyddir adar â thoriadau ar fferm, rhaid eu hynysu lle bo angen a’u trin neu eu difa ar unwaith gan berson cymwys wedi ei hyfforddi yn unol ag amodau lles deddfwriaeth lladd. Dylai adar nad ydynt yn cael eu hystyried yn ddigon iach i’w cludo gael eu difa ar unwaith ar y fferm.

Mae nifer y toriadau yn dibynnu fwy neu lai ar:

- wendid yr esgyrn, gan gynnwys tuedd asgwrn y frest i dorri cyn ac ar ôl asgwrneiddio;
- cynllun systemau lletya, yn ystod y cyfnod magu a’r cyfnod dodwy, gan gynnwys faint o le sydd ar gael a’r ddarpariaeth gyfoethogi (i wella iechyd esgyrn drwy ymarfer cynnal llwyth) a chynllun y cwt (drwy flaenoriaethu osgoi trawma drwy wrthdrawiadau yn erbyn dodrefn ac offer); a
- thrafod, gan gynnwys diboblogi.

Ar y cychwyn mae asgwrn y frest wedi ei wneud o gartilag ond mae’n asgwrneiddio yn 35 wythnos oed. Cyn asgwrneiddio, gall glymu neu ystumio rywsut. Gallai gael ei niweidio neu ei dorri, er enghraifft pan fo’r iâr yn neidio neu’n

hedfan ac yn taro yn erbyn clwyd neu offer arall yn y cwt dofednod. Er nad cryfder yr asgwrn efallai yw unig achos torri’r asgwrn, ceir digon o dystiolaeth ei fod yn ffactor pwysig.

Mae deiet addas, cynllun y cytiau a thrafod gofalus yn cyfrannu at wneud yr asgwrn mor gryf â phosib a lleihau’r risg o doriadau. Dylai perchnogion/ceidwaid cywennod ac ieir dodwy ddilyn y canllawiau diweddaraf ynghylch cynnwys maeth priodol bwyd mewn cyfnodau magu a dodwy gwahanol er mwyn sicrhau bod yr esgyrn mor gryf â phosib drwy gydol oes yr aderyn. Mae ymarferion cynnal llwyth a geir drwy’r gallu i ymdrochi mewn llwch a’r mynediad at glwydi (yn ddelfrydol o’r cyfnod magu cynnar) yn annog symudedd a dylai wella cryfder esgyrn. Bydd yr iâr hefyd yn cael budd o gerdded, neidio, chwifio adenydd ac ymarferion eraill. Dylid ystyried cynllun a lleoliad clwydi, haenau ac esgynfeydd yn ofalus mewn cytiau cywennod a chytiau dodwy i atal gwrthdrawiadau a chwympiadau.

Dylai perchnogion/ceidwaid annog prosesyddion ieir ar ddiwedd cyfnod dodwy i adrodd yn ôl â gwybodaeth am doriadau, a dylai hyn gael ei defnyddio wedyn i osod targedau yn y cynllun iechyd a lles, er mwyn lleihau achosion o doriadau. Dylid nodi unrhyw newidiadau i gynllun cytiau, rheoli, maeth neu strategaethau dal a chario adeg diboblogi yn y cynllun, cyn i’r haid nesaf o gywennod newydd gyrraedd.

Gwiddon coch

Mae niferoedd bychain o widdon coch yn achosi llid, ac yn gwneud yr adar yn aflonydd ac yn dueddol o bigo plu’n niweidiol. Gall nifer mawr o widdon achosi anemia, crib a thagell welw, gostyngiad yn nifer yr wyau a gynhyrchir a gwanhau cynyddol hyd at farwolaeth. Mae adar iau a chywion y fwy tueddol o ddiodeff anemia yn gyflym a marw. Gall cylch bywyd y gwiddon coch o’r wy i’r oedolyn fod cyn lleied ag wythnos a phan ceir problem yn yr haid gall fod yn anodd ei rheoli.

Fel mater o drefn dylid cynnal a chofnodi protocol eglur ar gyfer monitro a thrin sydd wedi ei lunio gyda milfeddyg ac sydd wedi ei ddiffinio yn y cynllun iechyd a lles. Dylid archwilio offer a dodrefn am widdon; gellir gosod trapiau gwiddon syml yn y tŷ mewn lleoliadau allweddol er mwyn monitro lefelau. Dylid archwilio crib, coesau a brest adar gan gynnwys rhai marw. Mae clwstwr gweladwy o widdon neu smotiau gwaed ar wyau yn arwydd o bla difrifol.

Offer awtomatig neu fecanyddol

Mae Paragraffau 18 i 21 o Atodlen 1 o Reoliadau Lles anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'u diwygiwyd) yn nodi:

- (18) Rhaid i bob offer awtomatig neu fecanyddol sy'n angenrheidiol ar gyfer iechyd a lles yr anifeiliaid gael eu harchwilio o leiaf unwaith y dydd i sicrhau nad oes unrhyw ddiffyg arno.
- (19) Pan ganfyddir diffygion mewn offer awtomatig neu fecanyddol o'r math y cyfeirir ato ym mharagraff 18, rhaid eu cywiro ar unwaith, neu os nad yw hyn yn bosibl, rhaid cymryd camau priodol i ddiogelu iechyd a lles yr anifeiliaid wrth ddisgwyl i'r diffygion hynny gael eu cywiro, gan gynnwys defnyddio dulliau amgen o fwydo a dyfrhau a dulliau amgen o ddarparu a chynnal amgylchedd boddhaol.
- (20) Pan fydd iechyd a lles yr anifeiliaid yn ddibynnol ar system awyru artiffisial:

- (a) rhaid darparu system briodol wrth gefn i warantu y gellir adnewyddu'r aer yn ddigonol i ddiogelu iechyd a lles yr anifeiliaid pe digwyddai i'r system fethu; a
- (b) rhaid darparu system larwm (a fydd yn gweithredu hyd yn oed os bydd y prif gyflenwad trydan yn methu) i rybuddio am unrhyw fethiant yn y system.

- (21) Rhaid i'r system wrth gefn y cyfeirir ati ym mharagraff 20(a) gael ei harchwilio'n drwyadl a rhaid i'r system larwm y cyfeirir ati ym mharagraff 20(b) gael ei phrofi o leiaf unwaith bob saith diwrnod er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ddiffyg ar y system, ac os canfyddir unrhyw ddiffyg ar unrhyw adeg, rhaid ei gywiro ar unwaith.

Dylai'r holl offer a gwasanaethau, gan gynnwys hopranau bwyd, cadwyn fwyd a systemau cyflenwi, offer yfed, gwyntyllau awyru, unedau gwresogi a goleuo, diffoddwyr tân, generaduron, systemau wrth gefn eraill a systemau larwm, gael eu glanhau, eu harchwilio, eu gwiro a'u cadw mewn cyflwr gweithio.

Rhaid i'r holl offer awtomatig y mae lles yr adar yn dibynnu arnynt ymgorffori dyfais na fydd yn methu a system larwm i rybuddio'r perchennog/ceidwad os oes rhywbeth yn bod. Dylai diffygion gael eu cywiro ar unwaith neu dylid cymryd camau dros dro eraill (fel y disgrifir yn y cynllun iechyd a lles) i ddiogelu iechyd a lles yr adar hyd nes y bydd y broblem wedi ei datrys. Gan hynny, dylai dulliau eraill o fwydo'r adar ac o gadw amgylchedd boddhaol fod yn barod i'w defnyddio.

Dylai systemau awyru, gwresogi, goleuo, bwydo, llinellau yfed a phob offer arall neu osodiad trydan gael eu dylunio a'u lleoli fel nad oes perygl i'r adar gael eu hanafu. Ni ddylai'r adar allu mynd yn agos at osodiadau trydanol ar foltedd y prif gyflenwad, a rhaid gofalu eu bod wedi'u daearu.

Awyru a thymheredd

Mae paragraff 13 o Atodlen 1 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'u diwygiwyd) yn nodi:

- (13) Rhaid i gylchrediad aer, lefelau llwch, tymheredd, lleithder aer cymharol a chrynodïadau nwy gael eu cadw o fewn terfynau nad ydynt yn niweidiol i anifeiliaid.

Gall ffactorau amgylcheddol (tymheredd, lleithder, amonia, carbon deuocsid, llwch, bacteria a ffwng) gael effaith uniongyrchol ar les adar, trosi bwyd, cynhyrchu wyau (nifer, pwysau, ansawdd plisgyn), clefyd a marwolaeth. Mae'r tabl isod yn dangos gwerthoedd a argymhellir ar gyfer rhai paramedrau amgylcheddol:

Tymheredd cwt	17-25 °C (ieir dodwy llawndwf) yn dibynnu ar y system gynhyrchu
Lleithder	40-60% (hyd at 70-75% am gyfnodau byr)
Arddwysedd golau	0 leiaf 10 lux (ac eithrio blychau nythu <1 lux)
Crynodïad Amonia	< 20 rhan fesul miliwn
Carbon deuocsid	< 3000 rhan fesul miliwn

Dylai'r system awyru a'r cyfleusterau ar gyfer storio ac ymdrin â sarn a thail gael eu dylunio, eu cynnal a'u rheoli fel na ddaw'r adar i gysylltiad â nwyon fel amonia a charbon deuocsid mewn crynodïadau digon cryf i beri iddynt fod yn anghyfforddus, neu i gael effaith andwyol ar eu hiechyd. Mae gallu pobl i aroglï amonia'n amrywio, ond os gellir aroglï amonia, mae'n debyg bod y lefelau'n rhy uchel, ac mae'n awgrymu bod angen monitro a chymryd camau. Mae rhai gweithgareddau (er enghraifft, ail-lenwi sarn a gwaredu tail) o fewn y cwt ieir dodwy yn gallu cynyddu lefelau llwch a phathogenau, a dylid rhoi protocolau clir ar waith i leihau pa mor aml mae staff ac adar yn dod i gysylltiad â lefelau uwch.

Dylid inswleiddio ac awyru'r adeilad i atal yr adar rhag bod yn rhy gynnes neu'n rhy oer. Dylai gofynion awyru gael eu nodi yn y cynllun iechyd a llesiant, a dylid darparu arweiniad clir i staff ar y camau i'w cymryd, gan gynnwys monitro, ar adegau gwahanol y flwyddyn i helpu i gynnal tymhereddau a lleithder priodol yn y cytiau. Lle mae'r awyru i'w weld fel pe bai'n achosi problemau iechyd a llesiant, dylid ceisio cyngor arbenigol.

Dylid gofalu'n benodol i ddiogelu ieir sy'n sensitif i oerfel, megis y rhai sydd wedi colli plu, rhag drafftiau pan fydd yr amgylchiadau yn oer. Un arwydd gweladwy bod amgylchedd y cwt yn oer yw grwpiau o adar yn gwasgu at ei gilydd am gyfnodau hir, ym manau cynhesaf y cwt (neu'r cawell). Mae gwasgu at ei gilydd yn ymateb arferol i dymhereddau isel, ond mae gwasgu at ei gilydd am gyfnod hir yn dangos nad yw'r tymheredd yn gyfforddus ar gyfer yr haid.

Mae ieir dodwy sy'n agos at ddiwedd eu hoes dodwy yn fwy tebygol o fod yn oer, yn enwedig os ydynt wedi colli llawer o blu mewn amodau tywydd oer a gwlyb. Ar gyfer ieir sydd wedi dod at ddiwedd eu hoes dodwy, dylid ystyried eu haddasrwydd i gael eu cludo ar gyfer y daith arfaethedig yn ofalus, yn enwedig pan fyddant wedi colli llawer o blu ac mae cyflwr eu cyrff yn wael yn ystod tywydd gwlyb, yn enwedig pan fydd y lefelau marwolaeth mewn haid wedi cynyddu'n uwch na'r lefel ddisgwylidig.

Ni ddylai adar fod mewn cysylltiad â golau haul cryf neu uniongyrchol, nac amodau poeth neu laith, sy'n gallu achosi straen gwres. Arwyddion straen gwres yw unrhyw fath o anadlu trwm yn yr haid, fel arfer yn ystod misoedd yr haf. Bydd yr adar yn llai awyddus i symud a bwyta. Byddant yn eistedd yn unionsyth ac yn agor eu pigau a gwneud symudiadau anadlu gweladwy. Yn ystod cyfnodau o dywydd poeth dylid rhoi sylw i lif, dosbarthiad a chyflymder yr aer ar lefel yr adar.

Lle nad oes gan yr adar ddewis o amgylcheddau, er enghraifft, mynediad at fuarth, yna mae'n bwysig cynnal a chadw'r amgylchedd o fewn y prif gwt er mwyn sicrhau a gall yr adar gynnal eu tymheredd corff arferol heb yr angen i anadlu'n drwm neu wasgu at ei gilydd.

Goleuo

Lle nad oes digon o olau naturiol mewn adeilad i ddiwallu anghenion ffisiolegol neu anghenion ymddygiad unrhyw adar a gedwir ynddo, mae angen darparu golau artiffisial priodol.

Rhaid i anifeiliaid a gedwir mewn adeiladau gael cyfnod priodol lle nad ydynt mewn golau artiffisial.

Mae Paragraff 3 o Atodlen 5 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'u diwygiwyd) yn nodi:

- 3(1) Rhaid cael lefelau golau ym mhob adeilad sy'n ddigonol i ganiatáu i'r ieir weld ei gilydd a chael eu gweld yn glir, ymchwilio i'w hamgylcheddau yn weledol a dangos lefelau normal o weithgarwch.
- (2) Os oes goleuni naturiol, rhaid trefnu'r agoriadau goleuni mewn ffordd sy'n golygu bod y goleuni'n cael ei wasgaru'n gyfartal yn y llety.
- (3) Ar ôl y dyddiau cyntaf o ymgyfarwyddo, rhaid i'r drefn oleuo fod yn un sy'n atal problemau iechyd ac ymddygiad, ac felly rhaid iddi ddilyn rhythm 24-awr a chynnwys cyfnod digonol o dywyllwch di-dor sy'n para, yn ddynodol, am oddeutu traean o'r diwrnod.
- (4) Os oes modd, dylid darparu cyfnod digonol o lwydoleuo, pan fo'r golau yn cael ei bylu er mwyn i'r ieir setlo heb aflonyddwch nac anaf.

O dan amodau arferol, ym mhob system, dylai'r lefel o olau fod o leiaf 10 lux, o'i fesur wrth unrhyw gafn bwydo. Er gallai gostwng lefel y golau helpu i ymdrin â phroblemau ymddygiad megis pigo plu niweidiol neu ganibaliaeth, gallai hyn fod yn ymateb i'r newid yn arddwysedd y golau o 'arferol' (ar gyfer yr haid honno) yn hytrach na lefel lux gwirioneddol arddwysedd y golau ei hun. Mae ieir yn gweld golau gwynias ar arddwysedd uwch na golau fflworoleuol, felly rhaid bod yn ofalus wrth newid rhwng mathau o ffynonellau golau.

O gael y dewis bydd adar yn symud rhwng gwahanol arddwyseddau golau yn ystod y dydd. Serch hynny, mewn systemau cewyll, dylid sicrhau bod y golau'n cael ei ddsbarthu mor gyfartal â phosibl, ac eithrio ardal y nyth lle, os yn bosibl, dylai fod yn llawer is (<1 lux).

Dylid sicrhau cyfnod o lwydoleuni (rhwng 1 a 5 lux) er mwyn rhoi amser i ieir dodwy ymgynffino â newid ym mhatrymau golau a thywyllwch a rhoi amser iddynt fynd i glwydo.

Sarn (gwasarn, llaesodr – litter)

Ieir dodwy mewn systemau di-gewyll

Mae paragraff 2 o Atodlen 2 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'u diwygiwyd) yn nodi:

- (2) Rhaid i bob system gael ei chyfarparu mewn ffordd sy'n golygu bod gan bob iâr ddodwy:
 - (e) o leiaf 250 cm² o fan o dan sarn i bob iâr, a'r sarn yn gorchuddio o leiaf un traean o arwynebedd y llawr.

leir dodwy mewn cewyll gwell

Mae Paragraff 2 o Atodlen 4 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'u diwygiwyd) yn nodi:

- (2) Rhaid i ieir dodwy gael:
- (c) sarn fel bod modd pigo a chrafu.

Dylai deunydd y sarn fod o ansawdd priodol, yn sych ac yn addas i ieir ymdrochi mewn llwch sych neu ddeunydd crafu ond ni ddylai gynnwys unrhyw beth a allai fod yn wenwynig neu a allai achosi niwed i'r ieir. Mae'n rhaid i'r sarn fod yn hyfriw (chwalu'n rhwydd) ac yn sych ar yr wyneb.

Dylid archwilio'r sarn yn aml am arwyddion o lwydni neu bla, yn enwedig o dan offer yfed neu'n agos i'r waliau, a dylid cymryd camau priodol i ddatrys unrhyw broblem. Dylid hefyd archwilio'r sarn i sicrhau nad yw'n caledu, yn wlyb neu'n rhy lychlyd.

Mewn systemau di-gewyll, rhaid i'r holl ieir allu mynd at fan sydd o dan sarn. Rhaid cadw'r sarn hwn mewn cyflwr hyfriw (yn chwalu'n rhwydd). Dylai dyfnder cyfartalog y sarn fod o leiaf 5 cm yn ystod hyfforddiant blychau nythu ac oddeutu 10 cm ar ôl i'r hyfforddiant blychau nythu gael ei gwblhau. Dylai fod gan ieir lawr o ansawdd da o dan eu traed iddyn nhw allu ymddwyn yn naturiol gan gynnwys ymdrochi mewn llwch a chrafu, ac i osgoi problemau iechyd a lles. Mae ymdrochi mewn llwch yn weithred gymdeithasol ac felly dylai fod digon o sarn o ansawdd da ar gael er mwyn iddynt ymdrochi mewn llwch fel gweithgaredd grŵp, ond heb gael eu haflonyddu gan adar eraill sy'n gwneud gweithgareddau gwahanol. Os nad oes adar neu dim ond adar unigol yn ymdrochi mewn llwch, gall hyn awgrymu nad oes digon o le neu fod problemau yn ymwneud â safon y sarn.

Gall dŵr sy'n colli neu'n gollwng o offer yfed arwain at effaith negyddol ar ansawdd sarn. Dylid cynnal a chadw offer yfed yn dda a'u gosod ar uchder priodol ar gyfer pob aderyn. Dylid asesu pwysedd y dŵr yn aml i sicrhau nad yw'n gollwng. Dylid digalchu'r offer yfed yn aml

(rhwng heidiau) i osgoi problemau a achosir gan ddŵr yn gollwng. Dylid trwsio gollyngiadau cyn gynted â phosibl. Gallai fod angen newid y sarn yn y tymor byr yn y manau hynny yr effeithir arnynt waethaf, ochr yn ochr â chynyddu'r system awyru a'r tymheredd i gael gwared ar gymaint o leithder â phosibl. Er hynny dylid dod o hyd i atebion tymor hir a dylid ceisio cyngor arbenigol pan fo'n briodol.

Sŵn

Mae Paragraff 2 o Atodlen 5 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'u diwygiwyd) yn nodi:

- (2) Ym mhob system lle cedwir ieir dodwy:
- (a) rhaid cadw lefel y sŵn mor isel ag y bo modd;
- (b) rhaid osgoi sŵn cyson neu sydyn; a
- (c) rhaid i wyntyllau awyru, peiriannau bwydo ac offer arall gael eu hadeiladu, eu lleoli, eu gweithredu a'u cynnal mewn ffordd sy'n peri iddynt wneud cyn lleied o sŵn ag y bo modd.

Wrth gynllunio cytiau neu wrth osod offer newydd, dylid gwirio'r lefelau sŵn a, lle bo angen, dylid gosod deunydd gwrth-sain priodol i gyflawni lefelau derbynol cyn i'r adar gael eu lleoli. Dylai'r holl offer sy'n cael ei ddefnyddio'n rheolaidd, megis systemau awyru, offer bwydo a generaduron wrth gefn gael eu hasesu ar gyfer lefelau sŵn yn rhan o'r profion rheolaidd a'r gwaith cynnal a chadw a nodir yn fanwl yn y cynllun iechyd a lles.

Yn ddelfrydol, dylai unrhyw waith atgyweirio neu adnewyddu sydd angen defnyddio offer swnllyd gael ei wneud rhwng heidiau, ond os nad yw hynny'n digwydd yna dylai'r gwaith gael ei wneud yn ystod yr oriau pan fo'r ieir yn effro a dylid cyflwyno'r sŵn mewn modd sy'n osgoi'r perygl o ddychryn a mygu.

Bwydo a dyfrhau

Pob iâr ddodwy

Mae paragraffau 22 i 27 o Atodlen 1 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'u diwygiwyd) yn nodi:

- (22) Rhaid i anifeiliaid gael eu bwydo â deiet maethlon sy'n briodol i'w hoedran a'u rhywogaeth ac a fwydir iddynt mewn cyflenwad digonol i'w cynnal mewn iechyd da, i ddiwallu eu hanghenion maeth a hybu cyflwr cadarnhaol o les.
- (23) Rhaid peidio â darparu bwyd neu hylif i anifeiliaid sy'n cynnwys unrhyw sylwedd a allai beri dioddefaint neu anaf diangen iddynt, a rhaid darparu bwyd a hylif ar eu cyfer mewn modd nad yw'n peri dioddefaint neu anaf diangen iddynt.
- (24) Rhaid i bob anifail gael y cyfle i fynd at fwyd ar adegau sy'n briodol i'w anghenion ffisiolegol, (ac o leiaf unwaith y dydd beth bynnag), ac eithrio pan fo milfeddyg wrth arfer ei broffesiwn yn cyfarwyddo fel arall.
- (25) Rhaid i bob anifail gael cyfle naill ai i fynd at gyflenwad addas o ddŵr a chael cyflenwad digonol o ddŵr yfed ffres bob dydd, neu allu diwallu ei angen i yfed digon o hylif trwy ddulliau eraill.
- (26) Rhaid i offer bwydo a dyfrhau gael ei ddylunio, ei adeiladu, ei osod a'i gynnal er mwyn sicrhau cyn lleied â phosibl o halogi bwyd a dŵr neu effeithiau niweidiol cystadlu rhwng anifeiliaid.
- 27(1) Ni chaniateir rhoi i anifeiliaid unrhyw sylwedd arall, ac eithrio rhai a roddir at ddibenion therapiwtig neu broffylactig neu at ddibenion triniaeth sootecnegol, oni ddangoswyd mewn astudiaethau gwyddonol ar les anifeiliaid neu trwy ymarfer sefydledig nad yw effaith y sylwedd hwnnw yn niweidiol i iechyd neu les yr anifeiliaid.

Ieir dodwy mewn systemau di-gewyll

Mae Paragraffau 2(a) a (b) o Atodlen 2 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'u diwygiwyd) yn nodi:

- (2) Rhaid i bob system gael ei chyfarparu mewn ffordd sy'n golygu bod gan bob iâr ddodwy:
 - (a) fwydwr llinol sy'n rhoi o leiaf 10 cm i bob aderyn neu fwydwr crwn sy'n rhoi o leiaf 4 cm i bob aderyn;
 - (b) cafn yfed di-dor sy'n rhoi o leiaf 2.5 cm i bob iâr neu gafn yfed crwn sy'n rhoi o leiaf 1 cm i bob iâr.

Mae paragraffau 3 a 4 o Atodlen 2 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'u diwygiwyd) yn nodi:

- (3) Pan fo'r system yn defnyddio pigynnau dŵr neu gwpanau, rhaid cael o leiaf un pigyn dŵr neu gwpan i bob 10 iâr.
- (4) Pan fo gan y system fannau yfed sydd wedi eu plymio, rhaid cael o leiaf dau gwpan neu ddau bigyn dŵr o fewn cyrraedd i bob iâr.

Ieir dodwy mewn cewyll gwell

Mae Paragraffau 3 a 4 o Atodlen 4 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'u diwygiwyd) yn nodi:

- (3) Rhaid darparu cafn bwydo y gellir ei ddefnyddio heb gyfyngiad ac sydd â'i hyd o leiaf yn lluoswm o 12 cm a nifer yr ieir yn y cawell.
- (4) Rhaid i bob cawell gael system yfed sy'n briodol ar gyfer maint y grŵp; os darperir pigynnau dŵr, rhaid cael o leiaf dau bigyn dŵr neu ddau gwpan o fewn cyrraedd i bob iâr.

Rhaid bod bwyd a dŵr ar gael yn rhwydd i bob iâr.

Dylai offer bwydo a dyrhau fod yn gweithio ac wedi'u dylunio, eu hadeiladu, eu gosod a'u cynnal mewn ffordd sy'n sicrhau:

- nad yw bwyd na dŵr yn cael eu sarnu ac nad oes baw'n cael mynd i'r bwyd na'r dŵr;
- a bod yr holl ieir dodwy'n gallu cael digon o ddŵr;
- nad ydynt yn achosi na'n peri anaf i'r ieir;
- eu bod yn gweithio ym mhob tywydd;
- bod modd monitro faint o fwyd a dŵr sy'n cael ei fwyta neu ei yfed; ac
- y gellir eu symud a'u diffodd yn rhwydd mewn sefyllfaoedd rheoli clefyd pan ddefnyddir cyfleusterau allanol priodol.

Hefyd, mae'n bwysig ei bod yn hawdd glanhau a diheintio'r offer.

Dylai fod digon o le wrth bob bwydwr i ieir dodwy allu cael y bwyd sydd ei angen arnynt heb ormod o gystadlu. Os nad oes cyflenwad di-dor o fwyd, efallai y byddai'n well darparu rhagor o gafnau bwydo er mwyn i'r ieir i gyd allu bwyta yr un pryd.

Dylech osgoi newidiadau sydyn o ran y trefniadau bwydo a faint a'r math o fwyd a roddir, heblaw am y newidiadau sydd eu hangen er lles corfforol ieir neu mewn argyfwng. Gall mash helpu i gynyddu'r amser a dreulir yn bwyta a lleihau'r risg o bigo niweidiol. Dylai perchnogion/ceidwaid sicrhau, gyda'r cyngor maeth a milfeddygol arbenigol priodol, bod gan fwyd ieir y cydbwysedd priodol o asidau amino a lefel o sodiwm a gofalu'n arbennig wrth leihau maint y protein mewn unrhyw ddeiet. Dylai adar gael graean anhydawdd o oedran ifanc i helpu i ddatblygu'r system dreulio ac i helpu treuliad da drwy gydol oes yr adar.

Pan fo'n ymarferol, dylid gwasgaru ychydig o rawn cyflawn, pelenau neu raeau dros yr ardal grafu fewnol bob dydd i annog chwilota a chrafu a'i gwneud hi'n llai tebygol y bydd achosion o bigo niweidiol.

Ni ddylid caniatáu i hen fwyd a dŵr neu hynny sy'n halogedig gronni, a dylid eu newid ar unwaith.

Cadwch olwg ar gyflwr corff yr ieir, eu pwysau ac ansawdd a nifer eu hwyau i fonitro effeithiolrwydd y drefn fwydo.

Dylid darparu mynediad at ddŵr ffres bob dydd yn ystod y cyfnod o olau a nifer digonol o offer yfed, wedi eu cynnal a'u cadw'n gywir, wedi eu dosbarthu'n dda ac wedi eu haddasu i'r uchder a'r pwysedd priodol. Mewn cytiau dofednod hirach ac yn y rhai lle mae'r llawr â mwy o ogwydd, dylid darparu rheolyddion pwysedd dŵr os ystyrir bod colli dŵr yn broblem.

Pan fo'n bosib, dylid gosod mesuryddion dŵr ym mhob cwt er mwyn monitro'r defnydd o ddŵr yn ddyddiol. Mae mesurydd dŵr yn offer rheoli defnyddiol; mae cofnodion dyddiol o faint o ddŵr sy'n cael ei ddefnyddio yn rhoi rhybudd cynnar o broblemau posibl.

Dylech sicrhau ymlaen llaw bod digon o fwyd a dŵr addas ar gael mewn argyfwng, e.e. pan fydd toriad yn y trydan neu ddŵr yn rhewi.

Rhaid gwrthod systemau sy'n gofyn am beidio â rhoi bwyd na dŵr i adar ar unrhyw ddiwrnod. Peidiwch byth â rhwystro ieir rhag cael bwyd a dŵr er mwyn eu cael i fwrw eu plu. Er hynny, cewch eu cadw heb fwyd ond nid heb ddŵr am hyd at 12 awr cyn eu lladd.

Anffurfio

Mae adran 5 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 yn datgan:

- 5(1) Mae person yn cyflawni trosedd os:
- (a) yw'n rhoi triniaeth a waherddir i anifail gwarchoddedig;
 - (b) yw'n achosi i'r fath driniaeth gael ei rhoi i'r fath anifail.
- 5(2) Mae person yn cyflawni trosedd os:
- (a) yw'n gyfrifol am anifail;
 - (b) yw person arall yn rhoi triniaeth a waherddir i'r anifail, a
 - (c) gadawodd i hynny ddigwydd neu methodd â chymryd y camau (drwy arolygu'r person arall neu fel arall) a oedd yn rhesymol o dan yr holl amgylchiadau i atal hynny rhag digwydd.
- 5(3) Mae'r cyfeiriadau yn yr adran hon at roi triniaeth a waherddir i anifail yn cyfeirio at roi triniaeth sy'n cynnwys ymyrryd â meinweoedd sensitif neu ffurf esgyrn yr anifail, ac eithrio ar gyfer triniaeth feddygol.
- 5(4) Nid yw is-adrannau (1) a (2) yn berthnasol o dan y fath amgylchiadau gan y gallai'r awdurdod cenedlaethol priodol nodi'n fanwl drwy reoliadau.

Mae pob dull o anffurfio ieir dodwy wedi ei wahardd o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006; mae rhai gweithdrefnau (gweler Atodiad 2) wedi eu heithrio o'r gwaharddiad hwn o dan Reoliadau Anffurfio (Triniaethau a Ganiateir) (Cymru) 2007, cyn belled â'u bod yn cael eu rhoi gan berson y caniateir iddo roi'r driniaeth ac yn unol â'r gofynion perthnasol yn yr atodlenni:

- mewn modd sy'n achosi'r boen a'r dioddefaint lleiaf posibl i'r anifail;
- dan amodau hylendid da; ac
- yn unol ag arferion da.

Gall anffurfio achosi poen i ieir a dylid ei weithredu pan fo'n angenrheidiol i osgoi canlyniad lles gwaeth yn unig. Dylid ei ddefnyddio dim ond ar ôl ceisio cyngor priodol ar ymyriadau amgen posibl ymhob achos ac nid fel arfer cyffredin.

Tocio pigau

Mae paragraffau 5 (1) i (5) o Atodlen 4 o Reoliadau Anffurfio (Triniaethau a Ganiateir) (Cymru) 2007 (fel y'u diwygiwyd) yn nodi:

- 5(1) Ar gyfer pob dofednyn, rhaid i'r driniaeth tocio pigau gael ei rhoi gan ddefnyddio offeryn addas.
- (2) Ar gyfer pob dofednyn, rhaid atal unrhyw waedlif sy'n dod o'r big yn sgil hynny drwy ei serio.
- (3) Ar gyfer pob dofednyn, rhaid rhoi'r driniaeth a ganlyn:
- (a) y big uchaf a'r big isaf fel ei gilydd, heb fod mwy na thraean o bob un wedi ei dynnu, neu
 - (b) y big uchaf yn unig, heb fod mwy na thraean wedi ei dynnu.
- (4) Ar gyfer ieir dodwy a chywion y bwriedir iddynt fod yn ieir dodwy, a gedwir mewn sefydliadau sydd â 350 neu fwy o ieir dodwy:
- (a) caniateir tocio pigau er mwyn atal pigo plu neu ganibaliaeth yn unig;
 - (b) rhaid defnyddio technoleg is-goch;
 - (c) ni chaniateir tocio pigau adar sy'n 10 niwrnod oed neu'n hŷn; a

(ch) rhaid i'r driniaeth tocio pigau gael ei rhoi gan berson a chanddo wybodaeth, cyfarwyddyd a hyfforddiant addas a digonol fel ei fod yn gymwys i roi'r driniaeth.

(5) Nid yw is-baragraffau (4)(b) ac (c) yn berthnasol os rhoddir y driniaeth mewn argyfwng er mwyn rheoli achos o bigo plu neu ganibaliaeth.

Y nod yw dod â thocio pig fel trefn arferol i ben cyn gynted â phosib o fewn rheswm. I gyflawni hyn, mae'n rhaid i berchnogion/ceidwaid wneud ymdrech fawr i leihau achosion o bigo niweidiol yn eu heidiau.

Caniateir tocio pigau adar hyd nes iddynt gyrraedd 10 niwrnod oed gan ddefnyddio technoleg is-goch, er mwyn lleihau achosion o bigo niweidiol yn unig. Yn ymarferol, caiff ei wneud i gywion diwrnod oed yn y ddeorfa. Dylai gwaith tocio pigau gael ei wneud i'r safonau uchaf posib gan weithwyr sydd wedi eu hyfforddi.

Rhaid monitro offer trin pigau is-goch er mwyn gwneud yn siŵr bod y driniaeth yn effeithiol, o ran hyd y big a lles y cyw. Dylid hysbysu'r ddeorfa am unrhyw bryderon ynghylch effeithiolrwydd y driniaeth. Rhaid cynnal a chadw'r offer a'u calibradu.

Dylai perchnogion/ceidwaid roi cynllun gweithredu ar waith i fynd i'r afael â phroblemau pigo plu niweidiol, gan gynnwys strategaethau rheoli ac ymyriadau i leihau'r perygl o bigo niweidiol.

Ar ôl i bob strategaeth reoli gael ei rhoi ar waith a bod plu mewn cyflwr da drwy gydol y cyfnod dodwy mewn o leiaf dwy haid yn ddilynol, dylid mynd ati i ystyried peidio â thocio pigau mewn heidiau yn y dyfodol, mewn ymgynghoriad â milfeddyg a chynghorwyr technegol eraill sydd wedi'u cymhwyso'n briodol.

Os ceir achos o bigo niweidiol dylid mynd i'r afael â'r broblem ar unwaith drwy newidiadau priodol i'r system reoli. Pan fetha popeth arall, a dim ond ar ôl i bob strategaeth ymyrryd arall gael ei defnyddio, ceir tocio pigau mewn argyfwng yn dilyn cyngor milfeddyg, gan weithredwyr cymwys wedi'u hyfforddi trwy ddefnyddio offer priodol.

Gweithdrefnau bridio

Mae paragraffau 28 a 29 o Atodlen 1 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'u diwygiwyd) yn nodi:

28(1) Rhaid peidio â defnyddio bridio neu weithdrefnau bridio naturiol neu artiffisial sy'n peri neu sy'n debygol o beri dioddefaint neu anaf i unrhyw un o'r anifeiliaid o dan sylw.

28(2) Nid yw is-baragraff (1) yn atal defnyddio gweithdrefnau bridio naturiol neu artiffisial sy'n debygol o beri'r dioddefaint minimal neu fyrhoedlog, neu rai a allai beri bod angen ymyriadau na fyddent yn achosi anaf parhaol.

(29) Ni chaniateir cadw unrhyw anifeiliaid at ddibenion ffermio oni ellir disgwyl yn rhesymol, ar sail eu genoteip neu eu ffenoteip, y gellir eu cadw heb effaith niweidiol ar eu hiechyd neu eu lles.

Dylai adar ddod o raglenni bridio cytbwys sy'n hybu ac yn diogelu iechyd, lles ac amcanion cynhyrchiant ar yr un pryd. Dylid annog adnabod yr adar, er mwyn gallu rhoi adborth yn y dyfodol ar yr wybodaeth yn y pyramid bridio ac er mwyn defnyddio bridio yn well ar gyfer lles, ar sail data o'r gadwyn gyflenwi.

Dylai presenoldeb gwrywod mewn haid bridio ieir dodwy leihau ymatebion straen ac ofn yn sgil greddf naturiol gwrywod i amddiffyn eu benywod. Fodd bynnag, gall nifer rhy uchel o wrywod yn yr haid arwain at ymosoddedd rhywiol a mwy o straen yn yr haid all arwain at effaith negyddol ar les ac iechyd,

gan gynnwys cynhyrchu wyau. Wrth gynhyrchu wyau sy'n deor gan adar sy'n bridio, bydd angen gwahanol gymhareb ceiliog i ieir ar wahanol linach o ieir. Mae hyn oherwydd gwahaniaethau genetig o ran dofdra a gweithgarwch rhywiol. Dylai cyflenwyr bridwyr sicrhau eu bod yn darparu canllawiau ar gymarebau rhyw priodol, sy'n sicrhau y cynhyrchir digon o wyau wedi'u ffrwythloni gan hefyd leihau ymddygiad bridio ymosodol cymaint â phosibl.

Dylid asesu cyflwr corff ceiliog yn rheolaidd trwy gydol y cylch dodwy. Dylai'r cyfraddau tyfu ddilyn argymhellion twf y bridwr a ddarparwyd gan y cyflenwr, oherwydd ceir effaith ar y sberm a gynhyrchir os byddant yn tyfu'n rhy gyflym neu os ceir effaith ar gyflwr y corff. Dylid tynnu ceiliogod a ganfyddir â chyflwr corff gwael oddi yno a dylid rhoi rhagor o fwyd iddynt a'u dychwelyd at yr haid ar ôl gorffwys am ychydig wythnosau a phan fo cyflwr y corff wedi gwella.

Mae'n bosibl y bydd angen tynnu o'r haid fel cam dros dro geiliogod sy'n pigo yn ymosodol iawn neu sy'n arddangos ymddygiad annerbyniol, er enghraifft cwrso neu dargedu yr un iâr dro ar ôl tro er mwyn paru. Os bydd yr ymddygiad annerbyniol yn parhau ar ôl i'r ceiliog ddychwelyd, dylai gael ei ddifa heb greulondeb.

Dylai'r camau a'r arferion hwsmonaeth ar y fferm fridio fod wedi'u cynllunio i leihau cymaint â phosibl nifer yr wyau llawr ac ni ddylid anfon wyau budr iawn fel wyau deor. Mae'n well gan ieir sy'n bridio nythod llawn sarn a gall rhoi is-haenau o sarn mewn nyth leihau nifer yr wyau llawr, beth bynnag yw'r math o sylfaen.

Mae'n rhaid difa heb greulondeb nifer gormodol o gywion ac embryonau mewn plisgyn, gan gynnwys gwastraff mewn deorfeydd, gan unigolyn cymwys sydd wedi'i hyfforddi ac yn unol â'r ddeddfwriaeth benodol ar les anifeiliaid adeg eu lladd.

Defnydd cyfrifol o feddyginiaethau a chadw cofnodion

Mae paragraffau 7 ac 8 o Atodlen 1 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'u diwygiwyd) yn nodi:

- (7) Rhaid cadw cofnod:
 - (a) unrhyw driniaeth feddyginiaethol a roddir i anifeiliaid; ac
 - (b) o'r nifer o farwolaethau a ganfyddir ym mhob archwiliad o'r anifeiliaid a gyflawnir yn unol ag unrhyw un o'r darpariaethau canlynol:
 - (i) yn achos ieir dodwy, paragraff 1 o Atodlen 5.
- (8) Rhaid cadw'r cofnod y cyfeirir ato ym mharagraff 7 am gyfnod o dair blynedd neu fwy o'r dyddiad pan roddwyd y driniaeth feddyginiaethol, neu ddyddiad yr archwiliad, a rhaid iddo fod ar gael i arolygydd os gofynnir amdano.

Dylid defnyddio cynhyrchion milfeddygol awdurdodedig ar gyfer yr anifeiliaid a nodir a dylid eu rhoi yn unol â chyfarwyddiadau'r cynhyrchwr. Pan fo angen rhagor o gyfarwyddiadau, milfeddyg ddylai roi'r rhain.

Mewn achosion penodol caiff milfeddyg ragnodi meddyginiaethau na fwriedir ar gyfer y cyflwr a'r rhywogaeth benodol yr awdurdodir y cynnyrch ar eu cyfer. Yr unig amgylchiadau pan geir gwneud hyn yw os nad oes meddyginiaeth awdurdodedig arall ar gael. Byddai angen i'r cynhyrchion a ddefnyddir gydymffurfio â'r gyfraith. Gweler Atodiad 1. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar y system 'rhaeadru' a rhagnodi meddyginiaethau anawdurdodedig sydd ar gael gan Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol Defra.

O dan ddeddfwriaeth lles, mae'n rhaid cadw'r cofnodion am o leiaf tair blynedd. Mae rhagor o ofynion ar gyfer cofnodion meddygol yn ofynnol o dan ddeddfwriaeth ychwanegol ar gyfer anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd. (Gweler Atodiad 1).

Mae'n ofynnol i'r cofnodion meddyginiaeth fod ar gael i arolygwr llywodraeth neu awdurdod lleol eu hadolygu ar unrhyw adeg.

Mae cofnodion yn gymorth hanfodol i reoli. Dylai'r cofnodion a gedwir gynnwys cymeriant bwyd a dŵr, ansawdd wyau, canlyniadau archwiliadau iechyd a lles, annormaleddau ymddygiad, tymheredd yr aer, ansawdd yr aer a chanlyniadau asesiadau canlyniadau lles.

Dylid monitro yn ofalus farwolaethau, difa (gan gynnwys y rheswm dros ddifa) ac, os yw'n bosibl, nifer y marwolaethau dyddiol mewn achos o glefyd. Dylid cynnal archwiliad post mortem mewn achosion pan fo nifer y marwolaethau yn sylweddol uwch na thargedau'r bridwyr. Dylid cadw cofnodion.

Dal a chario

Ceir rheolau manwl ynghylch cludo a symud dofednod i ac o'r fferm ac mae'r rhain wedi eu cynnwys mewn sawl gwahanol ddarn o ddeddfwriaeth (Gweler Atodiad 1). Dylai perchnogion/ceidwaid fod yn gyfarwydd â'r gofynion cyfreithiol hyn, gan gynnwys unrhyw gyfyngiadau a gofynion trwyddedu sy'n gysylltiedig â symudiadau adar ac wyau yn ystod achosion o glefydau hysbysadwy.

Nodir y cyfrifoldeb am les adar trwy gydol unrhyw broses gludo yn ein deddfwriaeth ar les wrth gludo. Mae unrhyw adar â chyflyrau difrifol a/neu boenus yn anaddas i'w cludo. Dylid difa heb greulondeb unrhyw adar sydd ar ôl ar y fferm, na ellir eu cludo, gan unigolyn cymwys sydd wedi ei hyfforddi ac yn unol â'r ddeddfwriaeth benodol ar les anifeiliaid adeg eu lladd.

Dylid dal a chario mewn modd tawel a hyderus gan fod yn ofalus er mwyn osgoi stryffaglian diangen a allai gleisio neu fel arall anafu'r adar. Mae angen sgil i wneud hyn a dim ond pobl cymwys ddylai ei wneud, h.y. y bobl hynny sydd

wedi'u hyfforddi'n briodol ar gyfer y dasg ac sydd wedi derbyn canllawiau a chyfarwyddyd clir gan y perchennog/ceidwad.

Ni ddylid atal adar rhag bwyta ac yfed cyn eu cludo. Mae'n rhaid bod bwyd a dŵr ar gael ar gyfer unrhyw daith sy'n para mwy na 12 awr, heb ystyried yr amserau llwytho a dadlwytho. Mae rheolau penodol yn berthnasol i adar dan 72 awr oed.

Ceir atal bwyd, ond nid dŵr, am hyd at 12 awr, cyn lladd ieir sydd ar ddiwedd eu hoes dodwy ac adar bridio. Dylid cydgysylltu â'r lladd-dy er mwyn cyfyngu ar yr amser y caiff ieir eu cadw mewn cynwysyddion cyn ac ar ôl eu cludo, a rhoi gwybod am unrhyw broblemau.

Cyn diboblogi'r cytiau ieir dodwy a bridio, mae'n rhaid tynnu oddi yno unrhyw rwystrau gan osodiadau a ffitiadau, yn enwedig ymylon miniog ac allwthiadau. Mae'n rhaid bod yn ofalus drwy gydol y broses o ddal ieir er mwyn osgoi panig ac anafiadau yn sgil hynny a mygu anifeiliaid, er enghraifft, drwy leihau arddwysedd y goleuni neu ddefnyddio golau glas neu goch.

Wrth ddal ieir dodwy mewn cewyll, mae'n rhaid eu tynnu o'r cawell un ar y tro i osgoi anaf neu ddiodefaint ac mae'n rhaid eu dal wrth y ddwy goes. Dylid cynnal y frest wrth eu tynnu o'r cawell. Mae'n rhaid dal a chario ieir sydd mewn systemau di-gewyll wrth y ddwy goes hefyd. Ym mhob system, dim ond wrth y ddwy goes y dylid cario ieir a dylid gofalu nad ydynt yn taro gwrthrychau solet, yn enwedig os yw'r adenydd yn chwifio. Ni cheir eu cario wrth eu hadenydd, eu pen, eu cynffon na'u gwddf. Bydd nifer yr ieir sy'n cael eu cario yn dibynnu ar faint yr iâr a gallu'r cariwr, ond ni cheir cario mwy nag uchafswm o dair ym mhob llaw. Dylid cario ieir cyn lleied o bellter â phosibl, er enghraifft trwy ddod â chynwysyddion cludo mor agos â phosibl at yr ieir.

Dylid defnyddio cynwysyddion ag agoriad mawr ar gyfer cywennod ac ieir er mwyn osgoi niwed i'r adar; mae'n rhaid i gynllun, maint a chyflwr unrhyw gynhwysydd a ddefnyddir i gario adar ganiatáu iddynt gael eu rhoi i mewn, eu cludo a'u tynnu allan heb anaf. Dylid asesu cyflwr cewyll a phan sylwir bod cewyll wedi torri, ni cheir eu defnyddio. Dylid gofalu wrth lwytho cewyll ar gerbydau, ac wrth eu cludo a'u dadlwytho, na roddir sioc gorfforol i'r adar.

Pan fydd adar wedi'u cadw yn y cynwysyddion cyn ac ar ôl eu cludo dylid eu diogelu rhag tywydd gwael ac amodau rhy boeth neu oer. Ni ddylid caniatáu i adar fod dan straen oherwydd gwres (a ddynodir gan fod yn fyr eu gwynt) drwy eu gadael mewn cynwysyddion sy'n agored i heulwen uniongyrchol gref, ac ni ddylent gael eu gadael yn agored i straen oherwydd yr oerfel drwy beidio â'u hamddiffyn yn ddigonol rhag glaw a gwyntoedd cryfion. Mae sicrhau digon o awyriad i'r ieir yn hanfodol bob amser.

Llety: Gofynion Cyffredinol

Mae paragraffau 11 a 12 o Atodlen 1 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'u diwygiwyd) yn nodi:

- (11) Rhaid i'r defnyddiau a ddefnyddir ar gyfer adeiladu llety, ac, yn benodol ar gyfer adeiladu corlannau, cewyll, corau ac offer y gall yr anifeiliaid ddod i gysylltiad ag ef, beidio â bod yn niweidiol i'r anifeiliaid a rhaid bod modd eu glanhau a'u diheintio'n drylwyr.
- (12) Rhaid i'r llety a'r ffitiadau a ddefnyddir i ddiogelu'r anifeiliaid fod wedi eu hadeiladu a'u cynnal fel nad oes unrhyw ymylon nac allwthiadau miniog sy'n debygol o achosi anaf iddynt.

Mae paragraff 5 o Atodlen 5 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'u diwygiwyd) yn nodi:

- (5) Rhaid cael cyfarpar addas yn y cewyll i atal yr ieir rhag dianc.

Mae paragraff 7 o Atodlen 5 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'u diwygiwyd) yn nodi:

- (7) Rhaid i ddyluniad a dimensiynau drws y cawell fod cystal ag i ganiatáu symud iâr lawndwf oddi yno heb iddi ddiodef yn ddiangen na chael ei niweidio.

Wrth gynllunio llety newydd ar gyfer ieir sy'n dodwy, dylid dewis safle gan ystyried y risgiau o ffactorau amgylcheddol allanol fel sŵn, golau, dirgryniad, llifogydd, llygredd amgylcheddol, ysglyfaethwyr a chlefydau. Pan fo'n briodol, dylid manteisio ar nodweddion naturiol i roi lloches ac i ddiogelu adar rhag ysglyfaethwyr, cnofilod ac anifeiliaid eraill.

Dylai dyluniad, adeiladwaith a champau cynnal a chadw clostiroedd, adeiladau ac offer ar gyfer ieir dodwy fod o'r fath eu bod yn:

- caniatáu iddynt gyflawni anghenion biolegol hanfodol a chynnal iechyd da;
- hwyluso rheolaeth dda o'r ieir a hwyluso'r gallu i archwilio pob rhan yn rheolaidd;
- caniatáu ar gyfer cynnal yn rhwydd gyflwr da o ran hylendid ac ansawdd aer;
- darparu lloches rhag amodau tywydd garw;
- cyfyngu ar y perygl o glefyd, anhwylderau sy'n ymddangos drwy newidiadau ymddygiad, anafiadau trawmatig i'r ieir, anafiadau a achosir gan yr ieir i'w gilydd, ac i'r graddau y mae hynny'n bosibl, halogi'r ieir gan faw;
- cau allan ysglyfaethwyr, cnofilod ac anifeiliaid gwyllt a lleihau pryfed cymaint â phosibl;
- caniatáu ar gyfer atal a thrin plâu o barasitiaid mewnol ac allanol;

- cynnwys pilenni gwrth-wlybanaeth i atal yr insiweiddio rhag methu a mesurau i atal cnofilod rhag dod i mewn yn rhwydd i'r deunydd insiweiddio; a
- darparu digon o oleuni addas i alluogi ymddygiad arferol.

Dylai'r lloriau a'r clwydi fod o gynllun a deunydd addas sy'n gyfforddus ac ni ddylent achosi poen, trallod nac anaf i'r ieir. Dylai'r clwydi roi digon o gynhaliaeth, yn enwedig ar gyfer y bysedd a'r crafangau sy'n wynebu'r blaen ar bob troed. Dylai'r clwydi fod yn ddigon hir i ganiatáu i bob aderyn glwydo ar yr un pryd. Dylai'r clwydi fod o'r diamedr cywir i ganiatáu i'r aderyn afael ynddynt. Dylai'r lloriau a'r clwydi gael eu cadw'n ddigon sych a glân.

Mae'n rhaid i'r nythod fod yn lle ar wahân ar gyfer dodwy wyau ac ni chaiff llawr y lle hwn gynnwys rhwyll o weiren a allai ddod i gysylltiad â'r adar. Dylai'r is-haenau ar y llawr a ddarperir yn y lle nythu greu amgylchedd sy'n annog ymddygiad nythu (cyn dodwy).

Dylai'r nythod fod o'r neilltu, wedi'u gwahanu o'r rhannau eraill ac ni ddylai fod unrhyw wynt oer yno, er mwyn i'r ieir dodwy allu gwahanu eu hunain o'r rhai sy'n gwneud gweithgareddau eraill. Ni ddylai cafnau bwydo na gosodiadau eraill fod wedi'u lleoli yn y lle nythu ac ni ddylai fod angen dod trwy'r lle nythu i fynd at y lle bwydo. Pan ddefnyddir llenni i greu lle o'r neilltu, dylent fod yn ddigon hir i atal ymadweithio rhwng ieir sy'n nythu ac ieir nad ydynt yn nythu ac i greu arddwysedd goleuni is yn y lle nythu. Mae'n well gan adar oleuni o lai na 1 lux ar gyfer nythu ac felly dylai cynllun a lleoliad y nythod geisio adlewyrchu'r anghenion goleuni is hyn.

Dylai nythod unigol fod wedi'u cynllunio i letya un iâr yn unig ar y tro. Dylai'r nythod fod yn rhwydd i'r holl adar fynd atynt ac ni ddylai eu lleoliad achosi mwy o berygl o gael anaf drwy daro i mewn i'w gilydd wrth gyrraedd a gadael.

Gan fod adar yn cael eu denu at rannau tywyll ar gyfer nythu, gellir eu hannog i beidio â nythu ar y llawr ac o dan rannau aml-haen drwy gynyddu lefelau'r goleuni yn y rhannau hyn.

Dylid cadw ieir mewn modd sy'n eu galluogi i gadw eu hunain yn lân.

Dylid cynllunio, lleoli, gosod a monitro offer awyru, gwresogj, goleuo, bwydo, dyfrhau a'r holl offer arall er mwyn osgoi'r perygl o anafu ieir.

Dwysedd stocio a rhyddid i symud

Yr holl ieir dodwy

Mae paragraffau 9 a 10 o Atodlen 1 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'u diwygiwyd) yn nodi:

- (9) Gan roi sylw i rywogaeth anifeiliaid ac yn unol ag arferion da a gwybodaeth wyddonol, rhaid peidio â chyfyngu ar eu rhyddid i symud mewn unrhyw ffordd a fydd yn peri dioddefaint neu anaf diangen iddynt.
- (10) Pan fo anifeiliaid yn cael eu clymu neu eu caethiwo yn ddi-dor neu'n rheolaidd, rhaid caniatáu lle priodol iddynt ar gyfer eu hanghenion ffisiolegol ac etholegol yn unol ag arferion da a gwybodaeth wyddonol.

leir dodwy mewn systemau di-gawell

Mae paragraff 8 o Atodlen 2 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'u diwygiwyd) yn nodi:

- (8) Yn ddarostyngedig i baragraff (9), rhaid i'r dwysedd stocio beidio â bod yn uwch na naw iâr ddodwy i bob m² o le y gellir ei ddefnyddio.

leir dodwy mewn cewyll gwell

Mae paragraff 2 o Atodlen 4 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'u diwygiwyd):

- (2) Rhaid i ieir dodwy gael:
- (a) o leiaf 750 cm² o arwynebedd cawell i bob iâr. Mae'n rhaid i 600 cm² o hyn fod yn arwynebedd y gellir ei ddefnyddio; rhaid i uchder y cawell heblaw'r uchder uwchben yr arwynebedd y gellir ei ddefnyddio, fod yn 20 cm neu fwy ym mhob pwynt, a rhaid i gyfanswm yr arwynebedd lleiaf mewn unrhyw gawell fod yn 2000 cm².

Wrth benderfynu ar y dwysedd stocio, dylid ystyried brîd yr ieir dodwy, y system letya, maint y nythfa, tymheredd, mesurau awyru a goleuo, yn ogystal â nifer y strwythurau clwydo a chanlyniadau lles yr haid flaenorol.

Gallai fod angen lleihau nifer yr adar mewn argyfwng, megis straen oherwydd gwres. Gallai fod angen lleihau nifer yr adar a gynllunnir ar gyfer heidiau yn y dyfodol pan fo tystiolaeth hanesyddol yn dangos nad oes digon o awyriad i fodloni gofynion amgylcheddol, er enghraifft, rheoli tymheredd, lefelau amonia a chyflwr y sarn.

Cyfoethogi'r amgylchedd

Gall cyfoethogi'r amgylchedd wella iechyd a lles adar yn ystod y cyfnod magu a dodwy, drwy leihau aflonyddu, ymosodedd, pigo sy'n anafu, ymatebion ofn a straen. Gall hefyd wella cryfder esgyrn drwy gynyddu ymarfer corff. Nod y gwahanol ddeunyddiau cyfoethogi yw:

- sicrhau bod yr adar yn treulio mwy o amser yn sefyll, cerdded, rhedeg, neidio ac ymdrochi mewn llwch;
- cynyddu ymddygiad chwilota arferol, gan roi cyfle i chwilio a phigo deunyddiau eraill yn yr amgylchedd, gan felly leihau'r perygl y byddant yn anafu ieir eraill drwy eu pigo;
- lleihau ymadweithio ymosodol rhwng adar a chreu amgylcheddau lle y gall adar ddianc rhag gwrthdaro a dod o hyd i lochesi diogel;
- gall cyfoethogi effeithiol gynnwys: byrnau gwellt a naddion i neidio arnynt, creu rhwystrau a rhaniadau isel o fewn rhannau mwy a darparu is-haenau i bigo atynt;
- clwydi a llwyfannau ar wahanol lefelau i ategu gwahanol ddefnyddiau ymddygiadol yn ystod y dydd a'r nos, gan gynnwys lloches rhag adar eraill;
- bwyd newydd i'w bigo;
- blociau pigo – gall rhai gynnwys gwerth o ran maeth neu effeithiau di-finio'r big;
- amrywiaeth o eitemau pigo;
- blychau ymdrochi mewn llwch; a
- “ferandas” neu “erddi gaeaf” i roi rhagor o le, sarn a mynediad at olau dydd naturiol mewn systemau llety lle nad oes maes ar gael neu pan fo wedi'i gyfyngu o bosibl am gyfnodau o amser.

Systemau di-gawell: gofynion lletya ychwanegol

Mae paragraff 2 o Atodlen 2 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'u diwygiwyd) yn nodi:

- (2) Rhaid i bob system gael ei chyfarparu mewn ffordd sy'n golygu bod gan bob iâr ddodwy:
 - (c) o leiaf un nyth i bob saith iâr ac, os defnyddir nythod grŵp, rhaid cael o leiaf 1 m² o le nythu ar gyfer uchafswm o 120 o ieir;
 - (ch) clwydi, heb ymylon miniog ac sy'n darparu o leiaf 15 cm i bob iâr. Rhaid peidio â gosod clwydi uwchben y sarn a rhaid i'r pellter llorweddol rhwng y clwydi fod yn 30 cm neu fwy a rhaid i'r pellter llorweddol rhwng y glwyd a'r wal fod yn 20 cm neu fwy; ac
 - (d) o leiaf 250 cm² o arwynebedd o dan sarn i bob iâr, a'r sarn dros un traean neu fwy o arwynebedd y llawr.

Mae paragraffau 5 a 6 o Atodlen 2 o Reoliadau Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'u diwygiwyd) yn nodi:

- (5) Rhaid i loriau'r gosodiadau fod wedi eu hadeiladu fel y gallant gynnal pob un o'r craffangau sy'n wynebu ymlaen, ar bob troed i bob iâr.
- (6) Os defnyddir systemau lle y gall yr ieir dodwy symud yn rhydd rhwng gwahanol lefelau:
 - (a) rhaid peidio â chael mwy na phedair lefel;
 - (b) rhaid i'r uchder rhwng y lefelau fod y 45 cm neu fwy;
 - (c) rhaid i'r cyfleusterau yfed a bwyta gael eu dosbarthu mewn ffordd sy'n golygu bod cyfle cyfartal i bob iâr fynd atynt; a
 - (ch) rhaid i'r lefelau gael eu trefnu i atal baw rhag cwmpo ar y lefelau islaw.

Gall y lle y gellir ei ddefnyddio gynnwys arwynebedd llawr yr adeilad y gall yr ieir fynd ato ac unrhyw rannau neu lwyfannau uwch ychwanegol sydd 30 cm o led neu fwy, gan gynnwys lloriau â thyllau ynddynt ar yr amod bod trefniadau ar waith i atal baw rhag disgyn ar yr ieir islaw.

Mae'n rhaid i'r clwydi fod 30 cm neu fwy o'i gilydd i'w cyfrifo yn rhan o'r lle clwydo, ond ceir darparu rhagor o glwydi yn ymyl ei gilydd i wneud llawr â thyllau ynddo. Ceir ystyried lloriau â thyllau ynddynt yn lle clwydo pan fo ganddynt glwydi wedi'u cynnwys yn strwythur y llawr neu wedi eu gosod ar ben arwynebedd y llawr. Pan fo adar yn clwydo ar strwythurau amhriodol, fel ymyl y cafnau bwydo, gall achosi niwed i'r traed ac atal adar eraill rhag mynd at y bwyd. Pan welir yr ymddygiad hwn, dylid ystyried darparu rhagor o glwydi uwch.

Mae'n rhaid bod digon o fwllch o boptu unrhyw glwyd i ganiatáu i'r ieir afael yn y clwydi heb fod mewn perygl o ddal eu craffangau. Os yw cyflwr y traed yn wael, dylid adolygu cynllun, lleoliad ac ansawdd y clwydi.

Dylai systemau aml-haen â llwyfannau â thyllau ynddynt fod â belt neu lestr i ddal baw o danynt. Ni cheir gosod y clwydi uwchben y man sarn.

Hyd yn oed pan ddarperir rampiau neu lwyfannau a/neu reiliau glanio, ni ddylai nythod, manau clwydo, clwydi a haenau fod mor uchel uwch ben lefel y llawr fel bod adar yn cael anhawster i'w defnyddio neu y gallent anafu eu hunain.

Ni cheir gosod gwifrau trydan, a ddefnyddir i annog ieir i beidio â dodwy mewn corneli a hel at ei gilydd gan sathru ar ei gilydd, o flaen yr agoriadau a'r mynedfeydd eraill i'r maes ar unrhyw adeg wrth fagu neu ddodwy ar gyfer adar maes. Dylai unrhyw wifrau trydan, pa un a ydynt wedi'u hinsiwleiddio ai peidio, gael eu gosod uwchben yr agoriadau.

Systemau maes: gofynion lletya ychwanegol

Mae paragraff 17 o Atodlen 1 o Reoliadau Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'u diwygiwyd) yn nodi:

- (17) Pan na chedwir anifeiliaid mewn adeiladau, rhaid eu hamddiffyn pan fo angen a phan fo'n bosibl rhag tywydd garw, ysglyfaethwyr a risgiau i'w hiechyd, a rhaid iddynt gael cyfle bob amser i fynd i fan gorwedd sydd wedi'i draenio'n dda.

Mae paragraff 7 o Atodlen 2 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'u diwygiwyd) yn nodi:

- (7) Os gall ieir dodwy fynd i libart agored:
- (a) rhaid cael nifer o dyllau, o leiaf 35 cm o uchder a 40 cm o led, yn arwain yn uniongyrchol i'r man allanol ac yn ymestyn hyd gyfan yr adeilad; a rhaid sicrhau beth bynnag bod cyfanswm o 2 m o agoriad ar gael ar gyfer pob grŵp o 1,000 o ieir; a
 - (b) rhaid i libartau agored:
 - (i) fod ag arwynebedd sy'n briodol ar gyfer y dwysedd stocio a natur y tir, er mwyn atal unrhyw halogi; ac
 - (ii) wedi'u cyfarparu â chysgod rhag tywydd garw ac ysglyfaethwyr ac, os oes eu hangen, â chafnau yfed priodol.

Mae ffactorau megis math o bridd, draeniad, maint yr haid ac amledd cylchdroi tir pori yn bwysig iawn wrth benderfynu faint o ieir dodwy y gall rhan benodol eu cynnal. Bydd pridd trwm sy'n draenio'n wael yn gallu cynnal llai o ieir na thir sy'n ysgafn ac sy'n draenio'n dda.

Mae'n rhaid bod adar yn gallu mynd yn uniongyrchol at y maes. Dylid eu hannog i ddefnyddio'r rhan awyr agored drwy agoriadau hygyrch ac uniongyrchol o'r adeilad. Ni ddylai uchder agoriad yr allanfa atal yr adar rhag eu defnyddio neu beryglu anaf iddynt. Dylai'r holl rampiau sy'n rhoi mynediad at agoriad fod yn ddigon isel i beidio ag atal adar rhag eu defnyddio i ddod allan neu fynd yn ôl i mewn.

Gall cynyddu nifer ac amrywiaeth y gorchudd naturiol, i roi lloches a chysgod, yn y maes fel coed, gwrychoedd a pherthi, hybu ac elwa i'r eithaf ar y defnydd o'r maes, sydd yn ei dro yn gallu lleihau pigo niweidiol. Gall fod buddion eraill i ddarparu gorchudd coed, fel wyau o ansawdd gwell, llai o ddŵr ffo, llai o gywasgu pridd a llai o allyriadau amonia. Dylai gorchudd coed fod ar gael yn agos at y llety gan fod ieir yn amharod i groesi tir agored.

Ni ddylid bwydo neu roi dŵr i adar ar unrhyw adeg yn yr awyr agored mewn cafnau agored na drwy wasgaru bwyd ar y ddaear. Dylai bwyd a dŵr a ddarperir yn yr awyr agored fod wedi'i orchuddio ac ni ddylai fod yn agored i adar gwyllt, cnofilod nac anifeiliaid eraill.

Os oes pyllau yn agos at y maes, dylid gosod ffens o'u hamgylch a/neu osod rhwyd drostynt i atal adar gwyllt, yn enwedig adar y dŵr.

Dylai fod digon o lety ar gael ar gyfer yr adar bob amser. Mae'n bosibl y bydd angen atal yr adar rhag mynd i'r maes mewn tywydd gwael neu yn ystod achosion/risg o glefydau hysbysadwy, os oes perygl i'w lles fel arall. Dylid darparu atalfeydd gwynt naturiol neu artiffisial ar dir agored. Dylid cymryd camau i ddiogelu ieir rhag ysglyfaethwyr.

Gall tir lle cedwir adar maes am gyfnodau hir fod yn anaddas ar eu cyfer yn y pen draw, h.y. wedi'i heintio ag organebau sy'n achosi neu'n cario heintiau i raddau a allai amharu ar iechyd yr adar ar y tir. Dylai adar gael eu

monitro'n rheolaidd i chwilio am arwyddion sy'n nodi crynodiad o bathogenau ar y tir a dylid cymryd camau priodol.

Mae'r amser y cymerir i dir ddod yn anaddas ar gyfer adar yn dibynnu ar y math o dir a'r dwysedd stocio. Dylid cymryd camau priodol i atal tir rhag mynd yn anaddas ar gyfer adar neu ddarparu maes newydd drwy symud y llety (yn achos unedau cludadwy) neu drwy gylchdroi'r tir maes y tu allan i adeiladau sefydlog. Oni bai bod y llety yn cael ei symud yn aml, mae'n arfer da i ddiogelu'r tir yn union wrth ei ymyl, er enghraifft drwy ddarparu llwyfannau slatiog neu wedi'u gorchuddio â weiren, "ferandas" neu "erddi gaeaf" wedi'u gorchuddio neu rannau â graean arnynt.

Systemau cewyll gwell: gofynion lletya ychwanegol

Mae Atodlen 4 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'u diwygiwyd) yn nodi:

- (1) Rhaid i'r holl ieir dodwy nas cedwir mewn system gawell y cyfeirir ati yn Atodlen 3 gael eu cadw mewn system cewyll gwell sy'n cydymffurfio â gofynion yr Atodlen hon.
- (2) Rhaid i ieir dodwy gael:
 - o leiaf 750 cm² o arwynebedd cawell i bob iâr, ac mae'n rhaid i 600 cm² ohono fod yn arwynebedd y gellir ei ddefnyddio; rhaid i uchder y cawell heblaw'r uchder uwchben yr arwynebedd y gellir ei ddefnyddio, fod yn 20 cm neu'n fwy ar bob pwynt, a rhaid i'r cyfanswm arwynebedd lleiaf mewn unrhyw gawell fod yn 2000 cm²;
 - mynediad at nyth;
 - sarn fel bod modd pigo a chrafu; a
 - chlwydi priodol sy'n caniatáu o leiaf 15 cm i bob iâr.

- (3) Rhaid darparu cafn bwydo y gellir ei ddefnyddio heb gyfyngiad ac sydd â'i hyd o leiaf yn lluoswm o 12 cm a nifer yr ieir yn y cawell.
- (4) Rhaid i bob cawell gael system yfed sy'n briodol ar gyfer maint y grŵp; os darperir pigynnau dwr, rhaid cael o leiaf dau bigyn dwr neu ddau gwpan o fewn cyrraedd i bob iâr.
- (5) Er mwyn hwyluso archwilio, gosod a diboblogi'r ieir rhaid cael eil o 90 cm o led neu fwy rhwng haenau o gewyll a rhaid caniatáu gofod o 35 cm neu fwy rhwng llawr yr adeilad a'r haen isaf o gewyll.
- (6) Rhaid gosod dyfeisiau addas ar gyfer cwtogi crafangau yn y cewyll.

Os oes tystiolaeth bod crafangau ieir wedi tyfu'n rhy hir neu wedi torri, dylid gwella'r ddarpariaeth o ddyfeisiau byrhau crafangau. Gall dyfeisiau sy'n rhy sgrafello achosi anaf felly dylid bod yn ofalus wrth ddefnyddio dyfeisiau o'r fath. Dylid cynnwys asesu hyd crafangau yn yr asesiadau canlyniadau lles rheolaidd a nodi hynny yn y cynllun iechyd a lles.

Dylid mesur lled yr eiliau fel y lled ddirwystr rhwng ymylon allanol y cafnau bwydo. Dylid mesur y pellter i'r llawr at waelod weiren y cawell.

Adran 2: Argymhellion sy'n berthnasol i gywion diwrnod oed a magu cywennod

Dylai'r amgylchedd lle caiff cywennod eu magu fod mor debyg â phosibl i'r amgylchedd lle byddant yn byw pan fyddant yn ieir llawndwf, er enghraifft, bod â chlwydi a rampiau tebyg neu gael eu magu mewn system aml-haen os mai dyna'r system y lletyir hwy ynddynt pan fyddant yn ieir llawndwf. Gall profiadau bywyd cynnar ar gyfer yr unigolyn a'r haid gyfan effeithio ar eu hymddygiad chwilota a phigo, yn ogystal â pha mor dda y maent yn ymateb i newidiadau neu straen trwy gydol eu hoes dodwy. Mae darparu mwy o gyfleoedd i wneud ymarfer corff yn ystod eu magwraeth yn cynyddu cryfder yr esgyrn.

Bydd cywion yn dechrau pigo a dysgu am fwyd priodol a byddant yn pigo ar is-haenau yn ystod 24 awr gyntaf eu bywydau. Dylid ystyried rhoi is-haenau bwyd a dŵr (er enghraifft drwy roi blociau gel) i gywion cyn gynted â phosibl ar ôl iddynt ddeor; ni ddylid disgwyl i gywion ddibynnu ar weddillion y codenni melynwy fel yr unig ffynhonnell o faeth.

Y cyfnod cynnar (0-6 wythnos)

Mae cywion yn agored iawn i straen oherwydd gwres neu oerfel yn ystod wythnosau cyntaf eu bywydau. Dylai'r adeilad fod wedi'i gynhesu ymlaen llaw am o leiaf diwrnod cyn y gosodir sarn cyn i'r cywion gyrraedd ac mae'n rhaid i'r sarn fod yn hyfriu a dylai fod yn sych.

Bydd y rhan fwyaf o gywion yn cyrraedd y fferm fel cywion diwrnod oed. Bydd angen darparu gwres ychwanegol iddynt a dylai fod bwyd a dŵr ar gael yn rhwydd iddynt. Mae'n bwysig bod y cywion yn dysgu'n gyflym lle mae'r ffynonellau bwyd a dŵr.

Gallai darparu deoryddion tywyll (ffynonellau gwres lletraws â llenni) wella lles drwy roi cyfle i'r cywion ifanc ddewis y golau a'r tymheredd y maent yn agored iddynt. Dylid archwilio'r cywion sydd o dan y deoryddion tywyll yn rheolaidd.

Amgylchedd magu cywennod

Gallai darparu camau cyfoethogi yn ystod y cyfnod magu leihau'r perygl y bydd y cywennod yn datblygu ymddygiad annormal neu ymddygiad anafu yn ystod y cyfnod cynhyrchu. Er enghraifft, gall diffyg profiad o chwilota neu ddeunydd ymdrochi mewn llwch arwain at ailgyfeirio pigo at blu ieir dodwy eraill yn yr haid. Gall darparu amgylchedd wedi'i gyfoethogi yn ystod y cyfnod magu helpu i sicrhau bod ieir yn datblygu ac yn trosglwyddo'n dda i amgylchedd dodwy wedi'i gyfoethogi.

Dylid darparu clwydi ar gyfer cywennod o pan fyddant yn 7 diwrnod oed fan bellaf a thrwy gydol y cyfnod magu gan fod hyn yn achosi llai o grafangau cefn wedi'u torri, gwell cynnwys mwynau yn yr esgyrn, a gwell cryfder esgyrn mewn ieir llawndwf.

Ni ddylai arddwysedd y goleuni yn ystod y cyfnod golau fynd yn is na 10 lux ar unrhyw adeg er mwyn gallu archwilio'r adar ac i osgoi twf annormal yr adar.

Dylai uchafswm dwysedd stocio cywennod 16 wythnos oed fod yn 20 kg/m² o gyfanswm y lle y gellir ei ddefnyddio mewn systemau magu llawr ac aml-haen. Yn ogystal â hyn, argymhellir, wrth gyfrifo ar lefel y llawr, na ddylai dwysedd stocio fod yn fwy na 33 kg/m² pan fyddant yn 16 wythnos oed mewn systemau aml-haen. Mae cynyddu'r lle sydd ar gael yn ystod y cyfnod magu yn caniatáu iddynt symud mwy a rhagor o gyfleoedd i gael ymarfer corff, sy'n gallu gwella tyfiant cyhyrau ac esgyrn mewn ieir dodwy.

Trosglwyddo o'r amgylchedd magu i'r amgylchedd dodwy

Dylai'r amgylchedd lle caiff y cywennod eu magu fod mor debyg â phosibl i'w hamgylchedd pan fyddant yn ieir llawndwf. Dylai'r sawl sy'n magu'r cywennod a'r sawl sydd â'r safle dodwy gydgyssylltu'n agos i sicrhau y caiff yr adar eu magu mewn modd sy'n lleihau straen yn y cyfnod trosglwyddo.

Atodiad 1: Deddfwriaeth sy'n effeithio ar ieir dodwy a chywennod

Crynoir y prif ofynion isod. Nid yw hon yn rhestr hollgynhwysol a sylwer y caiff rhywfaint o ddeddfwriaeth ei diweddarau a/neu ei diwygio'n rheolaidd. Mae holl ddeddfwriaeth y DU ar gael yn: www.legislation.gov.uk/cy

Deddf Lles Anifeiliaid 2006:
www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2006/45/contents

Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'u diwygiwyd):
www.legislation.gov.uk/wsi/2007/3070/contents/made

Rheoliadau Anffurfio (Triniaethau a Ganiateir) (Cymru) (Diwygio) 2007 (fel y'u diwygiwyd):
www.legislation.gov.uk/wsi/2007/1029/contents/made

Cludo

I gael gwybodaeth am gludo ieir dodwy, gweler: Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1/2005 (diogelu anifeiliaid wrth eu cludo a gweithrediadau cysylltiedig) www.extwprlegs1.fao.org/docs/pdf/eur69655.pdf

Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007 www.legislation.gov.uk/wsi/2007/1047/contents/made a'r canllawiau cysylltiedig www.gov.uk/guidance/farm-animal-welfare-during-transportation

Lladd

I gael gwybodaeth am les ieir dodwy ar adeg eu lladd a lladd ieir dodwy, gweler:

Rheoliad y Cyngor (CE) Rhif 1099/2009 (diogelu anifeiliaid adeg eu lladd) www.assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/325000/regulation_1099_2009_en.pdf a chanllawiau a deddfwriaeth ddomestig gysylltiedig

Rheoli clefydau a bioddiogelwch

I gael canllawiau ar gofrestru dofednod, gweler: www.gov.uk/government/publications/poultry-registration

Gweler Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981:
www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1981/22

Defnydd cyfrifol o feddyginiaeth a chadw cofnodion

Gweler y canlynol:

Mae **Rheoliadau Ffliw Adar (Mesurau Atal) (Cymru) 2006** yn ei gwneud yn ofynnol i bobl sy'n cadw 50 neu fwy o adar i gofrestru eu haid ag APHA.

Mae **Gorchymyn Rheoli Salmonela mewn dofednod (Cymru) 2008** yn ei gwneud yn ofynnol i gofnodion penodol gael eu cadw (gan gynnwys mewn deorfeydd) ac i brofion Salmonela gael eu cynnal ar gyfer heidiau bridio a dodwy.

Caiff clefyd Newcastle ei gwmpasu gan **Orchymyn Clefydau Dofednod (Cymru) 2003** sy'n ei gwneud yn ofynnol i bobl sy'n cadw heidiau o 250 o adar o leiaf gadw cofnodion penodol.

Mae **Rheoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol 2013** yn ei gwneud yn ofynnol i gadw cofnodion ar ddefnyddio a rhoi meddyginiaethau, a gwaredu meddyginiaeth na ddefnyddiwyd. Mae'n rhaid cadw cofnodion am 5 mlynedd neu fwy.

Sylwer: Mae Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'u diwygiwyd) yn ymwneud â chofnodi pa feddyginiaeth a roddir a phryd (at ddibenion lles) ac mae'n berthnasol i holl anifeiliaid fferm. Mae gofynion cofrestru Rheoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol 2013 yn disgrifio'n fanwl yr hyn y mae'n rhaid ei gofnodi, am ba gyfnod y mae'n rhaid cadw cofnodion ac mae'n cynnwys y gofynion ar gyfer cofnodion o bryd a ble y ceir gafael ar feddyginiaethau yn ogystal â'r gofyniad am gofnodion ar adeg rhoi meddyginiaeth.

Yn ogystal â hyn, nodir y gofynion o ran cadw cofnodion yn Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Archwilio am Weddillion a Therfynau Gweddillion Uchaf) (Cymru) 2019, Rhan V, paragraff 32:

www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2019/569/made/welsh.

Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 37/2010 ar sylweddau ffarmacolegol gweithredol a'u dosbarthiad o ran terfynau uchafswm gweddillion mewn cynhyrchion bwyd sy'n dod o anifeiliaid:

www.eur-lex.europa.eu/legal-content/en/TXT/?uri=CELEX%3A32010R0037.

Sgil-gynhyrchion anifeiliaid

I gael y gofynion ar storio, cludo a gwaredu sgil-gynhyrchion anifeiliaid fel carcasau marw, tail a sarn, gweler:

Rheoliad y Cyngor (CE) Rhif 1069/2009

www.eur-lex.europa.eu/LexUriServ/LexUriServ.do?uri=OJ:L:2009:300:0001:0033:EN:PDF

Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 142/2011

www.eur-lex.europa.eu/LexUriServ/LexUriServ.do?uri=OJ:L:2011:054:0001:0254:EN:PDF

Gorfodir y gofynion gan Reoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014.

www.legislation.gov.uk/wsi/2014/517/made

Atodiad 2: Triniaethau a ganiateir

Gwaherddir pob math o anffurfio ieir dodwy o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006. Mae Rheoliadau Anffurfio (Triniaethau a Ganiateir) (Cymru) 2007 yn eithrio triniaethau penodol o'r gwaharddiad hwn. Rhestrir yr holl driniaethau a ganiateir ar gyfer ieir dodwy a chywion y bwriedir iddynt fod yn ieir dodwy isod. Er bod rhai arferion anffurfio nad ydynt wedi'u gwahardd, byddai arfer da yn golygu mai ychydig iawn o le fyddai iddynt mewn system cynhyrchu dofednod fodern. Mae'r rhestr yn gywir ar adeg ei chyhoeddi:

- Ceir gosod microsglodyn at ddibenion adnabod.
- Tagio adenydd at ddibenion adnabod – mae'r gyfraith yn nodi y caniateir y driniaeth hon:
 - Ar adar a ffermir at ddibenion rhaglenni gwella bríd neu brofi am bresenoldeb clefyd yn unig.
- Caniateir dulliau eraill o adnabod ieir sy'n cynnwys anffurfio yn gyfreithlon.
- Tocio pigau – mae'r gyfraith yn nodi, os cynhelir y driniaeth hon:
 - ei bod yn ofynnol gwneud hynny gan ddefnyddio offeryn addas;
 - mae'n rhaid gwneud hyn ar y big uchaf a'r isaf, heb dynnu mwy na thraean o bob un, neu'r big uchaf yn unig, heb dynnu mwy na thraean; ac
 - mae'n rhaid atal unrhyw waedlif o'r big yn dilyn hynny drwy ei serio.

Ar gyfer ieir dodwy a chywion y bwriedir iddynt fod yn ieir dodwy, a gedwir mewn sefydliadau â 350 neu fwy o adar o'r fath, mae'r gyfraith yn nodi am docio pigau:

- y ceir ei wneud er mwyn atal pigo plu neu ganibaliaeth yn unig;
- y ceir ei wneud gan ddefnyddio technoleg is-goch*;
- na chaiff ei wneud ar adar sy'n 10 niwrnod oed neu'n hŷn*;
- mae'n rhaid ei wneud gan unigolyn sydd wedi derbyn digon o wybodaeth, cyfarwyddyd a hyfforddiant priodol er mwyn bod yn gymwys i gynnal y driniaeth.

* Nid yw'r is-baragraffau hyn yn berthnasol pan gynhelir y driniaeth mewn argyfwng er mwyn atal achosion o bigo plu neu ganibaliaeth.

- Tynnu bysedd y traed:
 - mae'r gyfraith yn nodi y ceir cynnal y driniaeth hon ar aderyn o dan 3 diwrnod oed oni bai bod milfeddyg o'r farn bod hynny'n angenrheidiol;
 - mae'n rhaid rhoi anesthetig pan fo'r aderyn yn 3 diwrnod oed neu'n hŷn.
- Tynnu'r grib a'r dagell – noda'r gyfraith:
 - y ceir cynnal y driniaeth hon ar aderyn sy'n iau na 3 diwrnod oed oni bai bod milfeddyg o'r farn bod hynny'n angenrheidiol;
 - mae'n rhaid rhoi anesthetig pan fo'r aderyn yn 3 diwrnod oed neu'n hŷn.
- Laparoscopi (archwilio ceudod yr abdomen drwy fewnosod offeryn o'r enw laparoscôp) – noda'r gyfraith:
 - ni chaniateir cynnal y driniaeth hon oni roddir anesthetig.

Ffynonellau eraill o wybodaeth

Cod argymhellion Cyngor Ewrop

Mae'r cod yn ystyried argymhellion Cyngor Ewrop ar gyfer adar domestig (*Gallus gallus*). Mae'r rhain yn nodi egwyddorion hwsmonaeth a gofal ac mae'n cynnwys adran ar ieir dodwy. Gweler: www.rm.coe.int/16805165ec

Lladd

Mae gan yr Humane Slaughter Association God Ymarfer ar gyfer gwaredu cywion mewn deorfeydd.

Cludo

I gael gwybodaeth am drafod a chludo, gweler:

Joint Industry Welfare Guide on the Handling and Transport of End-of-Lay Hens
www.britisheggindustryCouncil.co.uk/download/JIWGHLEHB.pdf

Canllawiau'r Humane Slaughter Association ar drafod a chludo dofednod
[www.hsa.org.uk/shop/publications-1/product/-poultry-catching-and-handling-\(free-pdf\)](http://www.hsa.org.uk/shop/publications-1/product/-poultry-catching-and-handling-(free-pdf))

Sgil-gynhyrchion anifeiliaid

I gael gwybodaeth am sgil-gynhyrchion anifeiliaid, gweler:

www.gov.uk/guidance/animal-by-product-categories-site-approval-hygiene-and-disposal

Asesiadau canlyniadau lles

I gael cyngor ar fesur canlyniadau lles, gweler:

AssureWel: www.assurewel.org
FeatherWel: www.featherwel.org/

Rheoli clefydau a bioddiogelwch

I gael cyngor ar ffliw adar, gweler:

www.gov.uk/guidance/avian-influenza-bird-flu.cy

I gael gwybodaeth ar y Rhaglen Genedlaethol i Reoli Salmonela, gweler:

www.gov.uk/government/publications/the-uk-national-control-programme-for-salmonella-in-layers-gallus-gallus

Ar gyfer dangosfyrddau arolygu clefydau, gweler:

www.apha.defra.gov.uk/vet-gateway/surveillance/scanning/disease-dashboards.htm

Meddyginiaeth gwrthficrobaidd a brechlynnau

I gael canllawiau ar ddefnydd cyfrifol o feddyginiaeth gwrthficrobaidd a brechlynnau, gweler:

www.ruma.org.uk/poultry/

www.farmantibiotics.org/progress-updates/progress-by-sector/egg-production/

Marchnata a masnachu wyau

I gael gwybodaeth am farchnata a masnachu wyau, gweler:

www.gov.uk/guidance/eggs-trade-regulations

* Er gwybodaeth yn unig y mae'r ffynonellau hyn ac ni ddylid eu hystyried yn rhan o'r Cod Ymarfer. Mae'r ffynonellau gwybodaeth hyn yn gyfredol ar ddyddiad cyhoeddi'r Cod hwn (gweler y dyddiad cyhoeddi ar y dudalen olaf). Gallai unrhyw un o'r ffynonellau gwybodaeth a restrir yma newid.